

# Cynllun gwaith arfaethedig Ofcom

2024/25

Cyhoeddwyd 15 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ... 3
2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25 ... 8
3. Y Gwledydd ... 26
4. Sut rydym yn cyflawni ... 30


## Atodiadau


A1. Beth rydym yn ei wneud ... 37
A2. Atodiad i’r Prosiect ... 39
A3. Asesiad effaith ... 49
A4. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn ... 50
A5. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori ... 53
A6. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad ... 54

# 1. Trosolwg

1.1 Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i Ofcom. Mae ein cylch gwaith wedi esblygu'n fawr ers i ni gael ein sefydlu yn 2003, yn enwedig wrth i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein gael ei phasio ym mis Hydref 2023. Dyma'r newid mwyaf i'n dyletswyddau yn hanes Ofcom. Wrth ymgymryd â'r rôl newydd hon – yn union fel rydyn ni'n ei wneud yn ein gwaith presennol ar draws telathrebu, cyfryngau darlledu, y post a sbectrwm – byddwn yn ceisio gwasanaethu dinasyddion a defnyddwyr, a gweithio gyda'r diwydiant tuag at ein cenhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

## Edrych yn ôl ar 20 mlynedd o Ofcom

1.2 Yn 2023 buom yn dathlu ein pen-blwydd yn 20 oed fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau cydgyfeiriol y DU. Mae'n amser da i edrych yn ôl ar ddau ddegawd o drawsnewid o ran sut mae pobl yn y DU yn cyfathrebu ac i ragweld sut bydd pethau'n parhau i esblygu. Mae'r chwyldro digidol wedi bod yn rym sy'n diffinio'r cyfnod hwn, gan drawsnewid sut rydyn ni'n gweithio ac yn astudio yn ogystal â sut rydym yn cael newyddion, adloniant ac yn cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Mae hyn i gyd yn golygu, er bod cenhadaeth Ofcom wedi aros yn gyson, mae'r ffordd rydym yn ei chyflawni wedi newid yn sylweddol ers 2003.

1.3 I ddefnyddwyr a'r diwydiant fel ei gilydd, roedd y byd yn wahanol iawn yn 2003. Yn 2003, roedd y rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yn dal i ddefnyddio ffôn llinell dir traddodiadol – wedi'i gysylltu â'r gyfnewidfa gan wifrau copr.  Er bod 75% o oedolion yn berchen ar ffôn symudol, roeddent yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer galwadau a negeseuon testun ac nid oedd yr iPhone yn bodoli tan 2007.

1.4 Nid oedd teledu wedi cael ei drawsnewid yn ddigidol ac ar-alw eto fel sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dim ond pum sianel oedd gan hanner y DU, ac roedd gwasanaethau manylder uwch yn eu dyddiau cynnar, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r llwyfannau sy'n dominyddu ein sgriniau heddiw – fel Netflix, Disney+ a BBC iPlayer – yn bodoli. Yn 2003, operâu sebon fel Coronation Street oedd y rhaglenni a oedd yn cael eu gwylio fwyaf, gan gyrraedd 19.4 miliwn o wylwyr, o'i gymharu â chyrhaeddiad uchaf o 12 miliwn yn 2023 ar gyfer darllediad y BBC o goroni Brenin Charles III.[1]

1.5 Roedd y rhan fwyaf o'r gwrando ar y radio dros ddarlledu AM/FM analog, ond drwy ddigideiddio, mae radio wedi parhau i fod yn hynod o gadarn. Er bod y nifer sy'n gwrando ar radio byw bob wythnos ar gyfartaledd wedi gostwng bedair awr yr wythnos ers 2003, mae gwrandawyr yn dal i wrando am 20.5 awr yr wythnos, ac mae cyrhaeddiad chwarterol radio yn dal i fod oddeutu 90%.[2]

1.6 Yn 2003, roedd bywyd ar-lein yn brin o'i gymharu â ffordd o fyw 'ar-lein trwy'r amser' heddiw ac nid oedd llawer o wasanaethau bob dydd wedi dod i'r amlwg eto: dim Facebook, X ( Twitter yn flaenorol), Instagram, nac YouTube. Dim ond 50% o gartrefi'r DU oedd â chysylltiad rhyngrwyd ac roedd y rhan fwyaf o'r rheini'n gysylltiadau deialu hen ffasiwn, yn methu delio â llwytho fideo neu sain i lawr yn hawdd, heb sôn am ffrydio.

[1] Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr (BARB), (2023)
[2] Cyfryngau'r Genedl, Ofcom (2023)

## Tirwedd defnyddwyr heddiw

1.7 Heddiw, wrth i ni gefnogi'r diwydiant telathrebu i symud o hen dechnolegau i rai newydd, mae'r ddarpariaeth yn well nag erioed, gyda bron i 22 miliwn o gartrefi (cyfanswm o 73% o'r DU) yn gallu cael band eang sy'n gallu delio â gigabits, a darpariaeth 5G yn yr awyr agored ar gael i 85% o gartrefi.[3] Mae ein gwaith i wella darpariaeth a hyrwyddo fforddiadwyedd yn parhau i fod yn hanfodol gan fod y gwasanaethau hyn yn dod yn fwyfwy pwysig i bob agwedd ar ein bywydau.

1.8 O ran cyfryngau darlledu, mae'r duedd oddi wrth deledu traddodiadol wedi'i amserlennu yn parhau, ac mae gwasanaethau ar-alw yn ffynnu – rhagwelir y bydd cyfanswm eu cyfran o wylio ffurf hir yn cyrraedd 30% erbyn 2025.[4] Mae YouTube a Facebook bellach yn cyrraedd 91% o holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU bob mis. Mae pobl yn fwy a mwy hapus i symud rhwng gwylio gwasanaethau darlledu ac ar-alw. Er gwaethaf hyn, mae darlledwyr traddodiadol yn cynnal cyfran o 60% o wylio fideos.[5] Rydym yn dal i gael nifer sylweddol o gwynion gan wylwyr. Mae gosod a gorfodi safonau, ar yr un pryd â diogelu rhyddid mynegiant, yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n gwaith.

1.9 Wrth i ni fyw ein bywydau ar-lein fwyfwy, mae cyfleoedd cynyddol hefyd ar gyfer niwed ar-lein. Mae dros hanner y bobl rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn meddwl eu bod yn treulio gormod o amser ar-lein, er bod llawer yn cymryd camau i reoli hyn gyda 36% yn cymryd seibiant o apiau cyfryngau cymdeithasol.[6] Mae rhieni hefyd yn poeni am ddefnydd eu plant o'r cyfryngau, gan gynnwys cael eu bwlio ar-lein. Er enghraifft, mae 75% o rieni yn poeni bod eu plentyn yn gweld cynnwys nad yw'n briodol ar gyfer eu hoedran.[7]

## Tueddiadau diwydiannol a thechnolegol

1.10 Mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae angen i Ofcom ddal i fyny â thechnoleg. Er bod y sectorau cyfathrebu bob amser wedi cael eu nodweddu gan arloesedd, mae newid yn cyflymu gyda ffrwd gyson o dechnolegau ac apiau newydd. Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar flaen y gad ac mae gwasanaethau sy'n cael eu gyrru gan ddeallusrwydd artiffisial eisoes yn trawsnewid nifer o sectorau. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid, cyd-reoleiddwyr a Llywodraeth y DU i ddeall a rhagweld y newid hwn yn well.

1.11 Mae goblygiadau i ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau wrth i wasanaethau ddod yn fwyfwy cydgysylltiedig ac wrth i weithredwyr telathrebu wneud eu rhwydweithiau'n rhithiol, gan ddibynnu fwyfwy ar wasanaethau Cwmwl. Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, mae technolegau ymgolli (gan gynnwys realiti rhithwir (VR) a realiti estynedig (AR)) a dyfeisiau cysylltiedig (fel cerbydau awtonomaidd neu dechnoleg drôn) yn debygol o ddatblygu i chwarae rôl fwy. Gallai'r rhain i gyd fod o fudd i gymdeithas ar yr un pryd â gwaethygu'r risg o niwed.

---

[3] Cysylltu'r Gwledydd, Ofcom (2023)
[4] Modelau ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, Mediatique (2020)
[5] Cyfryngau'r Genedl, Ofcom (2023)
[6] Y Cyfryngau ym Mywyd Plant, Ofcom (2023)
[7] Y Cyfryngau ym Mywyd Plant, Ofcom (2023)

1.12 Mae natur fyd-eang y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'r llwyfannau sy'n cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr yn sail i hyn. Wrth ymateb i anghenion defnyddwyr y DU, rhaid i ni hefyd gadw llygad ar ddatblygiadau byd-eang. Mae newid yn y byd sydd ohoni yn digwydd yn gyflym ac yn lledaenu'n fyd-eang. Mae Ofcom yn addasu i'r newid hwn drwy gydweithio â rhanddeiliaid yn rhyngwladol ar faterion sy'n dod yn fwyfwy byd-eang.

## Y flwyddyn i ddod

1.13 Rydym wedi llunio ein Cynllun Gwaith arfaethedig ar gyfer 2024/25 yng nghyd-destun y datblygiadau hyn. Mae'n canolbwyntio ar bedwar canlyniad blaenoriaeth parhaus: **'Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni', 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', 'Rydyn ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein',** a **'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach.'** Mae pob un o'r rhain yn cael eu hategu gan set o is-ganlyniadau, a gyflwynir isod ochr yn ochr â'r prif bethau i'w cyflawni o'r cynllun gwaith cynhwysfawr a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

### Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

- Rhwydweithiau o ansawdd uchel ar gael lle mae eu hangen.
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw.
- Pobl yn ymddiried yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio.
- Bod defnyddwyr yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu a gwneud dewisiadau yn y farchnad er mwyn cael y gwasanaethau priodol iddyn nhw.
- Bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n fforddiadwy.

1.14 Mae'r prosiectau sy'n cefnogi cyflawni'r canlyniad hwn yn 2024/25 yn cynnwys:

- Dechrau'r **Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol**, a'r **Adolygiad o Farchnadoedd Llais Cyfanwerthol.**
- Hyrwyddo **diogelwch a chadernid rhwydweithiau**, yn enwedig o dan y Ddeddf Diogelwch Telathrebu.
- Rheoli'r broses o **symud oddi wrth hen wasanaethau a hen dechnolegau.**
- Monitro **rheolau diogelu defnyddwyr, diogelu defnyddwyr agored i niwed** a monitro **fforddiadwyedd** gwasanaethau telathrebu.

### Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

- Bod cynulleidfaoedd yn gallu gwylio a gwrando ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth.
- Bod lluosogrwydd a dewis o amrywiaeth eang o ddarparwyr a chynhyrchwyr sy'n cystadlu'n deg am gynulleidfaoedd.
- Bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol, a rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu.
- Bod pobl yn gallu ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei wylio ac yn gwrando arno – bod y newyddion a ddarlledir yn ddigon cywir a diduedd, a bod materion cyfoes yn ddigon diduedd.

1.15 Mae'r prosiectau sy'n cefnogi cyflawni'r canlyniad hwn yn 2024/25 yn cynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o ddiwygio'r **Bil Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) a Bil Cyfryngau**.
- **Aildrwyddedu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus** a gwaith cysylltiedig.
- **Diogelu cynulleidfaoedd darlledu rhag niwed a chadw didueddrwydd dyladwy.**
- **Monitro perfformiad y BBC** a gwaith parhaus arall i reoleiddio'r BBC.
- Cynnal **adolygiad o'r farchnad cyfryngau lleol** yn y DU.

## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

- Llywodraethu: Mae gan wasanaethau drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd priodol ar waith i asesu risg i ddefnyddwyr, yn enwedig plant.
- Dyluniad a gweithrediadau: Mae gwasanaethau'n rhoi'r ymddiriedaeth a'r mesurau diogelwch sydd eu hangen ar waith i liniaru risgiau a chadw defnyddwyr yn ddiogel.
- Dewis: Mae defnyddwyr yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i fod yn fwy diogel ar-lein, gan gynnwys rheoli'r cynnwys maen nhw'n ei weld, y bobl maen nhw'n rhyngweithio â nhw a gallu rhoi gwybod am gynnwys niweidiol yn hawdd.
- Ymddiriedaeth: Mae Ofcom yn cael ei sefydlu fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein credadwy a dibynadwy.

1.16 Mae'r prosiectau sy'n cefnogi cyflawni'r canlyniad hwn yn 2024/25 yn cynnwys:

- **Gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein** gan gynnwys cyhoeddi ein hymgynghoriadau ar godau a chanllawiau sy'n ymwneud ag **amddiffyn plant.**
- **Ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein o fewn cwmpas y drefn newydd**, yn enwedig gwasanaethau risg uchel neu uchel eu cyrhaeddiad.
- Parhau i ddatblygu ein **heffeithiolrwydd gweithredol.**
- Parhau i reoleiddio l**lwyfannau rhannu fideos (VSPs)** a'n rhaglen **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM)**, ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

- Mae sbectrwm ar gael i alluogi'r diwydiant cyfathrebu i fodloni'r twf a'r arloesi a ragwelir mewn gwasanaethau symudol a di-wifr i ddefnyddwyr.
- Mae sbectrwm ar gael i ddiwallu anghenion arbenigol sectorau allweddol (er enghraifft, cyfleustodau, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth).
- Darperir ar gyfer rhagor o ddefnyddwyr drwy welliannau parhaus o ran effeithlonrwydd defnyddio sbectrwm.
- Mae buddiannau'r DU yn cael eu cynrychioli'n effeithiol mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddyrannu a defnyddio sbectrwm.
- Mae cyflawni gweithredol yn sicrhau bod sbectrwm ar gael a bod ymyriant niweidiol yn cael ei liniaru drwy weithgareddau busnes fel arfer (trwyddedu, cynllunio, sicrwydd a chydymffurfio).

1.17 Mae'r prosiectau sy'n cefnogi cyflawni'r canlyniad hwn yn 2024/25 yn cynnwys:

- **Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chydgyfeirio rhwydweithiau**, gan gynnwys drwy baratoi i ddyfarnu sbectrwm yn y bandiau mmWave 26GHz a 40GHz.
- **Cyflymu arloesedd o ran dulliau rhannu sbectrwm** a chydfodolaeth o ran awdurdodi sbectrwm ar draws gwahanol fandiau.
- **Diweddaru ac adolygu'r fframwaith rheoli sbectrwm.**
- **Parhau â'n harweiniad rhyngwladol ar reoli sbectrwm.**

1.18 Yn ogystal â'r pedwar canlyniad hyn, mae Ofcom yn parhau â'i waith pwysig yn rheoleiddio'r sector post. Yn 2024/25 byddwn yn cyflwyno tystiolaeth ar yr angen i ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) a byddwn yn asesu perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn ystod 2023/24.

## Ein gwaith ategol

1.19 Yn ogystal â nodi sut byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau, mae ein Cynllun Gwaith yn amlinellu sut rydym yn cefnogi ein gwaith polisi drwy ein proffesiynau, gan gynnwys: ein rhaglen ymchwil i ddeall defnyddwyr; sganio'r gorwel i gyd-fynd â marchnadoedd a modelau busnes sy'n datblygu; a thrwy ein dealltwriaeth o sut mae technoleg yn newid rhwydweithiau a gwasanaethau. Byddwn yn edrych ar effaith ein gwaith, yn benodol drwy ein gwerthusiadau terfyn rhaglen. Byddwn hefyd yn hybu'r defnydd o dechnoleg a data ar draws ein gwaith polisi.

1.20 Mae ein gwaith yn dibynnu fwyfwy ar bartneriaethau domestig a rhyngwladol pwysig gyda rheoleiddwyr ac arbenigwyr eraill. Byddwn yn parhau â'n gwaith drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, a byddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gydlynu rheoli sbectrwm yn fyd-eang.

1.21 Cafodd Ofcom ei sefydlu fel rheoleiddiwr cydgyfeiriol ar gyfer y sectorau cyfathrebiadau. Mae hyn yn parhau i fod yn gryfder wrth i ni nodi ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2024/25, ac adeiladu ar 20 mlynedd o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

# 2. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

2.1 Er bod ein dyletswyddau a'n swyddogaethau wedi'u nodi mewn nifer o Ddeddfau Seneddol (mae crynodeb llawn o'n dyletswyddau yn Atodiad 1), ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr ynglŷn â materion cyfathrebu, lle bo hynny'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

2.2 Fel rheoleiddiwr statudol annibynnol, mae ein Cynllun Gwaith yn seiliedig ar y dyletswyddau hyn a chyfoeth o dystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil, dadansoddi, dealltwriaeth ac ymgysylltu cadarn. Mae'r Cynllun Gwaith yn canolbwyntio ar bedwar canlyniad blaenoriaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth: **'Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni', 'Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', 'Rydyn ni'n byw bywyd mwy diogel ar-lein',** a **'Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach'** gydag adran ychwanegol ar y **Post**.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU

2.3 Ochr yn ochr â'n statws annibynnol, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) Llywodraeth y DU wrth arfer ein swyddogaethau rheoleiddiol. Mae'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol, a gyhoeddwyd yn 2019, yn amlinellu pedair blaenoriaeth polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â thelathrebu, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post. Wrth ddatblygu ein Cynllun Gwaith 2024/25 rydym wedi ystyried y pedair blaenoriaeth hyn yn y ffyrdd canlynol:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf:** Mae ein gwaith i ddechrau ailasesu'r marchnadoedd telathrebu sefydlog, a'n cefnogaeth barhaus i fuddsoddi mewn technolegau newydd yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth hon. Mae cyflawni ein dyletswyddau sbectrwm hefyd yn cefnogi arloesedd ac esblygiad rhwydweithiau'r DU.
- **Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telathrebu:** Yn ogystal â diogelu defnyddwyr telathrebu drwy newidiadau mewn technoleg, mae gennym ymrwymiad parhaus i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr drwy sicrhau eu bod yn cael mwy o wybodaeth ac yn cael eu diogelu. Byddwn yn adrodd ar fforddiadwyedd ac yn monitro tariffau cymdeithasol, yn ogystal â mynd i'r afael â sgamiau a monitro cydymffurfiad y diwydiant â rheolau defnyddwyr.
- **Seilwaith telathrebu diogel a chadarn:** Mae ein gwaith ar ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau yn cynnwys ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gadernid eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau. O dan y Ddeddf Diogelwch Telathrebu, byddwn yn monitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â'r fframwaith diogelwch newydd, gan gyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddarach eleni.
- **Gwasanaethau post:** Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r diwydiant i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y sector post. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o ddiwygio'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO), yn parhau â'n gwaith monitro ac yn asesu perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn ystod 2023/24.

2.4 Nid yw'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol yn ymdrin â rheoleiddio cyfryngau darlledu na'n dyletswyddau newydd mewn diogelwch ar-lein.

# Ein canlyniadau blaenoriaethol

Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion am ein pedwar canlyniad blaenoriaethol, a sut bydd ein prosiectau a'n rhaglenni yn ystod 2024/25 yn eu cefnogi i gael eu cyflawni. Mae rhestr gynhwysfawr o'r gwaith prosiect cysylltiedig wedi'i nodi yn 'Atodiad Prosiect' y Cynllun Gwaith (Atodiad 2).

## Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

Cysylltiadau a gwasanaethau cyflym a dibynadwy i bawb, ym mhobman


Mae'r canlyniad blaenoriaeth hwn yn ymwneud â'r rhwydweithiau sy'n ein cysylltu ni a'r gwasanaethau cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio dros y rhwydweithiau hyn. Mae mwy o alw a mabwysiadu gwasanaethau newydd wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar rwydweithiau cyfathrebu, gan bwysleisio'r angen i gael rhwydweithiau a gwasanaethau y gallwn ddibynnu arnyn nhw.

2.5 Ein nod yw diogelu buddiannau defnyddwyr a chefnogi pawb, ym mhob man, i gael gafael ar wasanaethau a chysylltiadau cyflym a dibynadwy. Byddwn hefyd yn gweithio i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad i fwrw ymlaen â rhwydweithiau a gwasanaethau y gall y DU ddibynnu arnynt, ac yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn fwy diogel, yn fwy cadarn ac yn fwy cydnerth.

2.6 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arni', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol i ddefnyddwyr:

- Bod rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel ar gael lle mae eu hangen.
- Rhwydweithiau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw.
- Bod pobl yn ymddiried yn y gwasanaethau a'r rhwydweithiau maen nhw'n eu defnyddio.
- Bod defnyddwyr yn hyderus ac yn gallu ymgysylltu a gwneud dewisiadau yn y farchnad er mwyn cael y gwasanaethau priodol iddyn nhw.
- Bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n fforddiadwy.

2.7 Yn 2021 roeddem wedi nodi ein strategaeth ar gyfer hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr pan wnaethom gyhoeddi'r Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (WFTMR), a oedd yn nodi'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2026. Eleni byddwn yn dechrau'r broses o ailasesu'r marchnadoedd telathrebu sefydlog i weld a oes angen unrhyw newidiadau i'n dull gweithredu, wrth i ni osod y fframwaith rheoleiddio a fydd yn berthnasol rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031 (ochr yn ochr â'r broses ar gyfer y fframwaith rheoleiddio ar wahân sy'n berthnasol yn Ardal Hull). Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol presennol (sy'n rhedeg tan fis Mawrth 2026), gan sicrhau bod cystadleuaeth yn cael ei chyflawni'n deg, gan gynnwys drwy waith parhaus ein Huned Monitro Openreach.




*Ffynhonnell: Cysylltu'r Gwledydd*, Ofcom (2023)

2.8 Mae cystadleuaeth yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau symudol, gyda gwell gwybodaeth am berfformiad rhwydweithiau yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus am y rhwydwaith sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

2.9 Er mwyn i ddefnyddwyr gael y gwasanaethau iawn ar eu cyfer nhw, mae angen iddynt allu ymgysylltu'n llwyddiannus â'r farchnad – mae angen gwybodaeth glir arnynt y gallant ei deall yn hawdd. Rydym yn adolygu'r arfer o godi prisiau yng nghanol contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant i sicrhau bod gan ddefnyddwyr eglurder a sicrwydd ynghylch beth fyddant yn ei dalu am gynnyrch ffôn a band eang.

2.10 Wrth i dechnoleg wella, ac wrth i ddefnyddwyr alw am fwy a mwy o wasanaethau newydd a gwell, mae angen diffodd hen dechnolegau a'u disodli â rhai newydd. O ran rhwydweithiau sefydlog, mae'r hen rwydwaith teleffoni analog (PSTN)[8] wrthi'n cael ei ddisodli gan system ddigidol newydd, ac mae'r hen rwydwaith copr yn cael ei ddisodli gan rwydwaith ffeibr cyflymach a mwy dibynadwy. Yn y maes symudol, bydd y rhwydweithiau 2G a 3G hŷn yn cael eu diffodd yn raddol a fydd yn rhyddhau sbectrwm ac yn caniatáu gwelliannau i'r rhwydweithiau 4G a 5G. Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i elwa o wasanaethau symudol gwell, cyflymach a mwy dibynadwy. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cynorthwyo a'u diogelu drwy'r cyfnodau pontio hyn.

2.11 Rydym hefyd yn gweithio i hyrwyddo cadernid rhwydwaith gwell a byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau ar gadernid eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau. Rydym yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol i Lywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei safbwynt ar ofynion cadernid seilwaith digidol y dyfodol.

2.12 Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein prosiectau a'n rhaglenni allweddol i gefnogi'r canlyniad blaenoriaethol yma'n cynnwys:

- **Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol:** Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol a osodwyd gennym o dan Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021 yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Byddwn yn dechrau ein hadolygiad nesaf a fydd yn pennu'r fframwaith rheoleiddio rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031, ac yn cyhoeddi ein prif ymgynghoriad erbyn Ch4 2024/25. Bydd hyn yn

[8] Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus

cynnwys y marchnadoedd ar gyfer mynediad i seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad i linellau ar brydles a marchnadoedd perthnasol eraill. Byddwn yn asesu a yw'r fframwaith a sefydlwyd gennym yn 2021 i hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau yn dal yn briodol.

- **Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol (yn Hull):** Mae'r fframwaith rheoleiddio ar wahân presennol sy'n berthnasol yn Ardal Hull yn dod i ben ym mis Hydref 2026. Rydym yn dechrau ar ein hadolygiad o'r marchnadoedd telathrebu sefydlog a fydd yn gosod y fframwaith rheoleiddio rhwng mis Tachwedd 2026 a mis Hydref 2031.
- **Adolygiad o'r Farchnad Llais Cyfanwerthol:** Mae Ofcom yn rheoleiddio'r prisiau cyfanwerthol ar gyfer terfynu galwadau sy'n sail i wasanaethau ffôn symudol a llinell dir yn y DU. Byddwn yn dechrau ar y gwaith sylfaenol a fydd yn ein galluogi i adolygu'r gwaith o reoleiddio'r marchnadoedd hyn rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Byddwn hefyd yn monitro'r farchnad ar gyfer terfynu SMS [9] cyfanwerthol a'i heffaith ar y farchnad negeseuon busnes manwerthu.
- **Codiadau pris yng nghanol contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant:** Ar hyn o bryd mae'r adolygiad hwn yn ystyried a oes gan gwsmeriaid ffôn a band eang ddigon o sicrwydd ac eglurder ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl ei dalu am wasanaethau sy'n destun codiadau pris yng nghanol contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i'n rheolau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni i sicrhau bod gan gwsmeriaid wybodaeth glir a thryloyw er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- **Diogelwch a Chadernid:** Gan ddefnyddio ein pwerau, a gyflwynwyd gan Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â'r fframwaith diogelwch newydd. Byddwn hefyd yn cyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiogelwch telathrebu erbyn mis Hydref 2024. O dan gyfrifoldebau ein Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS), byddwn yn parhau i sicrhau bod gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch a byddwn yn ymgysylltu â'r diwydiant i gynnal ein cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST) ar delathrebu a seilwaith digidol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â gwerthwyr i sicrhau ein bod yn cynnal dealltwriaeth ehangach o'r ecosystem telathrebu sy'n esblygu. Ar ben hynny, rydym yn bwriadu ymgynghori ar ymyriadau posibl i fynd i'r afael â chamddefnyddio rhifau 'Teitlau Byd-eang', sy'n cael eu defnyddio ar gyfer signalau rhwng rhwydweithiau symudol.

2.13 Yn ogystal â'r meysydd hyn o weithgarwch cynyddol, mae ein Cynllun Gwaith yn cynnwys rhaglenni parhaus a fydd yn cefnogi ein gwaith yn y maes hwn.

- **Monitro cydymffurfiad â rheolau Diogelu Defnyddwyr:** Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein hymyriadau diogelu defnyddwyr a'n mentrau gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr.
- **Fforddiadwyedd:** Byddwn yn rhoi gwybod i ba raddau y mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig o ran band eang. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro argaeledd tariffau cymdeithasol, y broses o'u hyrwyddo a'r nifer sy'n eu defnyddio, ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg cwsmeriaid cymwys.

[9] 'Gwasanaeth neges fer'

- **Diogelu cwsmeriaid agored i niwed:** Byddwn yn parhau i fonitro a yw cwsmeriaid agored i niwed yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan roi'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda darparwyr llai. Byddwn hefyd yn gweithio â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Rhoi newid ar waith:** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant ar ôl ei lansiad bwriadedig o Newid Un Cam ym mis Mawrth 2024 i sicrhau bod y broses yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr. Bydd Newid Un Cam yn golygu mai'r unig beth y bydd angen i ddefnyddwyr ei wneud fydd cysylltu â'r darparwr band eang newydd ar gyfer eu cartref, a byddan nhw hefyd yn gallu newid yn gyflymach – mewn dim ond diwrnod pan fydd hyn yn dechnegol bosibl.
- **Symud oddi wrth hen wasanaethau:** Mae rheoli'r broses o symud oddi wrth hen wasanaethau, fel gwasanaethau ffôn llinell dir traddodiadol a gwasanaethau symudol 2G/3G, yn elfen allweddol o'r achos busnes dros fuddsoddi mewn rhwydweithiau newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cynorthwyo a'u diogelu drwy'r cyfnodau pontio.
- **Adrodd ar ddata:** Byddwn yn parhau i adrodd ar ddarpariaeth, defnydd ac argaeledd rhwydweithiau band eang a symudol, a'r nifer sy'n eu defnyddio. Byddwn hefyd yn adrodd ar gynlluniau darparwyr sy'n edrych tua'r dyfodol i gyflwyno rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits.
- **Darpariaeth symudol:** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb yr wybodaeth am y ddarpariaeth a'r perfformiad sydd ar gael; gan edrych ar sut gall gwahanol ffynonellau data yn y byd go iawn roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr am y perfformiad symudol y gallant ddisgwyl ei gael, gan gynnwys ystyried yn benodol darpariaeth a pherfformiad ar rwydwaith rheilffyrdd y DU. Byddwn yn ystyried ffyrdd o wella sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i lleoli er mwyn i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid allu ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- **Cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang:** Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang. Byddwn hefyd yn darparu cymorth a mewnbwn i adolygiad presennol Llywodraeth y DU o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang yn ôl yr angen.


## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

Hybu dewis o gynnwys uchel ei ansawdd a fwynheir gan bob cynulleidfa ar draws y DU

Mae sector cyfryngau'r Deyrnas Unedig yn parhau i drawsnewid mewn ymateb i gystadleuaeth fyd-eang, technolegau newydd a newidiadau parhaus yn ymddygiad defnyddwyr. Mae'r canlyniad blaenoriaethol hwn yn nodi sut rydym wedi ymrwymo i gynnal amrywiaeth eang o gynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel, gan ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol a sicrhau bod newyddion yn ddigon diduedd a chywir.

2.14 Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau dewis anhygoel o gynnwys gan amrywiaeth eang o ddarparwyr: yn y DU ac yn fyd-eang, wedi'i ddarlledu ac ar-lein, wedi'i dalu amdano ac am ddim. Mae'r sector darlledu a'r cyfryngau hefyd yn rhan werthfawr o ddiwylliant ac economi'r DU, ond mae'n wynebu heriau yn yr hinsawdd economaidd bresennol a chwyddiant mewn costau, gyda chynulleidfaoedd hefyd yn ymateb i brisiau cynyddol am gynnwys a gwasanaethau.

2.15 Mae'r newid tymor hir mewn dewisiadau cynulleidfaoedd, o sianeli darlledu a rhaglenni i wasanaethau cyfryngau ar-lein a chynnwys ffurf fer, yn ffocws cynyddol yn ein gwaith rheoleiddio. Er bod gwasanaethau ar-alw yn parhau i dyfu, mae gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio'n eang ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Bob wythnos, mae dros dri chwarter o oedolion y DU yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu'n fyw, ac mae tua naw o bob deg oedolyn yn gwrando ar radio byw. Fodd bynnag, mae gwasanaethau sy'n cael eu darlledu'n fyw yn cynrychioli cyfran ostyngol o amser gwylio a gwrando ar gyfartaledd, yn enwedig mewn grwpiau iau.




*Ffynhonnell: Cyfryngau'r Genedl*, Ofcom (2023)

2.16 Mae graddfa a chyflymder y newid yn golygu bod llawer o waith i'w wneud i gefnogi sector cyfryngau'r DU, ei gymysgedd o ddarparwyr cynnwys a'i ystod a'i amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn parhau â'n gwaith

o osod a gorfodi safonau cynnwys fel y rheoleiddiwr ar ôl darlledu ar gyfer teledu a radio sy'n cael eu darlledu. Byddwn yn cymryd camau gorfodi cadarn lle bo angen, gan roi blaenoriaeth i orfodi rheolau sy'n ymwneud â niwed posibl i'r gynulleidfa, a chadw didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn addasu ar gyfer newidiadau yn y sector ac anghenion cynulleidfaoedd.

2.17 Wrth gyflawni ein gwaith i ddarparu 'cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Bod cynulleidfaoedd yn gallu gwylio a gwrando ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth.
- Bod lluosogrwydd a dewis o amrywiaeth eang o ddarparwyr a chynhyrchwyr sy'n cystadlu'n deg am gynulleidfaoedd.
- Bod cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag cynnwys niweidiol, a rhyddid mynegiant yn cael ei ddiogelu.
- Bod pobl yn gallu ymddiried yn yr hyn maen nhw'n ei wylio ac yn gwrando arno – mae newyddion a ddarlledir yn ddigon cywir ac yn ddiduedd, a bod materion cyfoes yn ddigon diduedd.

2.18 Rydym yn gwneud gwaith i ddeall newidiadau mewn marchnadoedd ac anghenion cynulleidfaoedd, ac yn adrodd ar newidiadau i'n gwaith rheoleiddio, yn rhoi cyngor arnynt ac yn eu rhoi ar waith. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd ein prosiectau allweddol yn cynnwys:

- **Diwygiadau i'r Bil Cyfryngau:** Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cyfryngau gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Bil yn cynnig nifer o ddiwygiadau i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys hwyluso'r gwaith o ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus drwy lwyfannau digidol, a sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn amlwg ar-lein. Bydd yn gwneud newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau radio, ac yn ehangu'r gofynion hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau tebyg i deledu a'r gwasanaethau Fideo Ar-alw mwyaf poblogaidd. Byddai'r Bil yn rhoi pwerau a dyletswyddau newydd i Ofcom, ac ar ôl hynny byddwn yn dechrau eu rhoi ar waith mewn fframweithiau rheoleiddio newydd, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Gall y rhain gynnwys: diwygio'r system cwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus; Cod diwygiedig ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig Eraill; cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi Gwasanaethau Detholiad Teledu (TSS) a Gwasanaethau Detholiad Radio (RSS); codau ymarfer a chanllawiau newydd ar gyfer y cyfundrefnau newydd o ran argaeledd ac amlygrwydd cynnwys teledu, a gwasanaethau ar-lein sy'n cael eu hysgogi gan lais, a chreu Cod Fideo Ar-alw, gyda nodau tebyg i'r Cod Darlledu, ar gyfer y gwasanaethau Fideo Ar-alw mwyaf a'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o achosi niwed. Byddwn yn cyhoeddi map ffordd i amlinellu sut a phryd y byddem yn gweithredu'r newidiadau hyn yn gynnar yn 2024 gan ddibynnu ar hynt y Bil
- **Aildrwyddedu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a rhaglen waith:** Rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiadau ar adnewyddu trwyddedau Channel 3, Channel 5 a Channel 4 yn ystod hanner cyntaf 2024. Byddwn hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer yr Adolygiad nesaf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r rhaglen waith. Fel rhan o hyn, byddwn yn

adrodd ar berfformiad a darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ac ar sut y gellir cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

- **Cynnal safonau Fideo Ar-alw (VoD):** Byddwn yn sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion statudol sy'n ymwneud â chynnwys niweidiol. Yn dilyn y Bil Cyfryngau, byddwn yn llunio Cod newydd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw dynodedig.
- **Cynnwys lleol radio masnachol:** Yn dilyn y Bil Cyfryngau, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau 'lleolrwydd' newydd ac yn rhoi trefn newydd ar waith ar gyfer rheoleiddio darpariaeth newyddion lleol ar radio masnachol analog.
- **Adolygiad o Gyfryngau Lleol:** Byddwn yn cynnal adolygiad eang o'r farchnad cyfryngau lleol yn y DU, gan ymdrin â phrint, radio, teledu ac ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwil ar yr hyn y mae ar gynulleidfaoedd ei angen a'i eisiau gan gyfryngau lleol, a sut mae'r rhain yn cael eu diwallu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- **Diogelu lluosogrwydd yn y cyfryngau:** Gan adeiladu ar ein dogfen drafod ar luosogrwydd yn y cyfryngau, byddwn yn parhau â'n gwaith i ddeall effaith newyddion ar-lein ar luosogrwydd yn y cyfryngau. Byddwn yn adolygu'r Rheolau Perchnogaeth Cyfryngau ac yn cyhoeddi ein hadroddiad, ac unrhyw argymhellion, i Lywodraeth y DU.
- **Rheoleiddio hysbysebion:** Byddwn yn parhau â'r paratoadau ar gyfer y cyfyngiadau statudol newydd ar hysbysebu cynnyrch bwyd a diod llai iach a ddaw i rym ym mis Hydref 2025 (yn berthnasol i hysbysebion teledu, ar-alw ac ar-lein). Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei rhaglen hysbysebion ar-lein, er mwyn sicrhau bod y broses o reoleiddio hysbysebion ar draws gwahanol gyfryngau yn dal yn gydlynol ac yn effeithiol.
- **Dosbarthu gwasanaethau darlledu yn y dyfodol:** Yn dilyn ein Cais am Dystiolaeth ac adolygiad o newidiadau yn y farchnad ar Ddyfodol Dosbarthu Teledu, byddwn yn parhau i werthuso newidiadau o ran dosbarthu a defnyddio cynnwys teledu a sain, a'r goblygiadau i gynulleidfaoedd a rhwydweithiau.
- **Setiau teledu cysylltiedig:** Gallai cyfryngwyr cynnwys, fel setiau teledu cysylltiedig, ddod yn byrth cynyddol bwysig i ddarparwyr cynnwys a defnyddwyr. Byddwn yn parhau i archwilio materion sy'n ymwneud â'u rôl ym marchnadoedd cyfryngau'r DU a chystadleuaeth a chanlyniadau i ddefnyddwyr.

2.19 Mae ein Cynllun Gwaith hefyd yn cynnwys rhaglen barhaus o weithgareddau i sicrhau'r canlyniadau hyn i bob cynulleidfa.

- **Diogelu cynulleidfaoedd darlledu rhag niwed a chadw didueddrwydd dyladwy:** Byddwn yn parhau i osod a gorfodi safonau cynnwys yn ein gwaith fel rheoleiddiwr ar ôl darlledu ar gyfer cynnwys teledu a radio a ddarlledir. Rydym yn ystyried hawl darlledwyr – a chynulleidfaoedd – i ryddid mynegiant ond byddwn hefyd yn cymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn darlledwyr sy'n torri ein rheolau, gan roi blaenoriaeth i orfodi rheolau sy'n ymwneud â niwed posibl i'r gynulleidfa. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau sy'n gwahardd darlledu cynnwys sy'n debygol o gymell troseddu, iaith casineb heb ei chyd-destun, a chynnal didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn materion cyfoes.

- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio:** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol, gwasanaethau radio masnachol digidol a gwasanaethau radio cymunedol digidol, a gwasanaethau radio analog cyfyngedig. Byddwn yn ymateb i geisiadau gan randdeiliaid i wneud newidiadau i'r trwyddedau hynny lle bo hynny'n briodol.

- **Cefnogi llwyfannau ar gyfer gwasanaethau darlledu:** Byddwn yn parhau i ehangu'r dewis i wrandawyr drwy drwyddedu gwasanaethau radio digidol DAB graddfa fach ledled y DU, ac yn adnewyddu trwyddedau ar gyfer yr amlblecsau sy'n darparu gwasanaethau DAB lleol. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl cwblhau ei hymgynghoriad ar ddyfodol y sector teledu lleol a thrwyddedau, ac ar gynlluniau i ddynodi Amserlenni Rhaglenni Electronig ('EPGs') ychwanegol fel 'Amserlenni Rhaglenni Electronig wedi'u rheoleiddio' yn dilyn ymgynghoriad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hyn.

- **Hygyrchedd gwasanaethau teledu ac ar-alw:** Byddwn yn parhau i orfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad wrth ddarlledu – isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion – yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gofynion newydd ar hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau ar-alw penodol. Yn dilyn ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi ein canllawiau 'arferion gorau' diwygiedig ar ddarparu gwasanaethau mynediad o ansawdd uchel.

- **Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu (TegACh):** Ar ôl lansio ein strategaeth TegACh a'n pecyn data, byddwn yn adeiladu ar y data rydym yn ei gasglu i adrodd ar dueddiadau TegACh yng ngweithluoedd darlledwyr yn ein cyhoeddiad blynyddol. Byddwn yn parhau i hwyluso sgyrsiau ar draws diwydiant darlledu'r DU, gan feithrin cysylltiadau cydweithio i wella a hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad.

- **Monitro perfformiad y BBC ac effaith ar y farchnad:** Byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am ei berfformiad ar gyfer ei holl ddyletswyddau, gan gynnwys:

  - Monitro sut mae'r BBC wedi gwella proses gwynion BBC yn Gyntaf i sicrhau ei bod yn dryloyw ac yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd. Bydd hyn yn cynnwys cynnal ymchwil siopwr dirgel ar system gwynion y BBC i fesur effeithiolrwydd y newidiadau a wnaeth y BBC, yn dilyn yr argymhellion yn ein datganiad yn 2022 ar 'Sut mae Ofcom yn Rheoleiddio'r BBC'
  - Monitro'r broses o weithredu Cynllun Gweithredu ar Ddidueddrwydd a Safonau Golygyddol, a sut mae'r BBC yn mynd ati i gynyddu hyder y cyhoedd yn ei agwedd at ddidueddrwydd dyladwy.
  - Dal y BBC i gyfrif am sut mae'n cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus wrth iddo newid i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Bydd hyn yn dod o dan Drwydded Weithredu newydd y BBC a gofynion adrodd, gan gynnwys drwy ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y BBC.
  - Parhau i fonitro effaith gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC ar y farchnad, i sicrhau nad yw'n cael gormod o effaith ar gystadleuaeth.
  - Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn edrych ar effeithiolrwydd llywodraethu a rheoleiddio'r BBC yn ei Hadolygiad Canol Tymor. Byddwn yn ceisio gweithredu unrhyw argymhellion o'r Adolygiad Canol Tymor fel mater o flaenoriaeth.

## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

Mae llwyfannau'n cael eu cymell i leihau niwed a gwneud defnyddwyr yn fwy diogel

Gan fod gwasanaethau ar-lein yn rhan greiddiol o'n bywydau, mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gam mawr tuag at sicrhau bywyd mwy diogel ar-lein i ddefnyddwyr yn y DU. Nod y cyfreithiau newydd yw dal cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau rhannu fideos a pheiriannau chwilio i gyfrif a chymryd camau i ddiogelu plant ac oedolion ar-lein. Mae'r canlyniad blaenoriaethol hwn yn amlinellu sut byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau yn y maes hwn.

2.20 Rydyn ni eisiau adeiladu bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU a nawr bod y Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi cadarnhau mai Ofcom yw'r rheoleiddiwr diogelwch ar-lein, mae gennym ystod ehangach o ddyletswyddau a phwerau i helpu i wireddu'r uchelgais hwn. Mae hyn yn adeiladu ar ein pwerau presennol i sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos (VSPs) a sefydlwyd yn y DU yn gwarchod eu defnyddwyr a'n gwaith hir-sefydledig i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ein rhaglen 'Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau'. Rydym eisoes yn ymgynghori ar ein dull o reoleiddio niwed anghyfreithlon a chanllawiau drafft ar sicrwydd oedran, a bydd ein gwaith yn parhau i gyflymu yn ystod y deuddeng mis nesaf.

2.21 Mae'r Ddeddf yn dal cwmnïau sy'n gweithredu amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein (gan gynnwys gwasanaethau defnyddiwr i ddefnyddiwr, gwasanaethau chwilio a gwasanaethau pornograffi) yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw pobl, yn enwedig plant, yn ddiogel ar-lein. Mae'n gosod dyletswyddau ar wasanaethau ar-lein i asesu a rheoli risgiau diogelwch sy'n deillio o gynnwys ac ymddygiad ar eu gwefannau a'u hapiau. Nid yw'n disgwyl i gynnwys niweidiol ac anghyfreithlon gael ei ddileu ar-lein, ond mae'n disgwyl i wasanaethau gael mesurau addas yn eu lle i gadw oedolion a phlant yn y DU yn ddiogel. Mae hefyd yn mynnu bod darparwyr pornograffi yn sicrhau nad yw plant fel arfer yn gallu dod ar draws cynnwys pornograffig ar eu safleoedd drwy ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn.

### Y pryderon mwyaf cyffredin a fynegwyd gan rieni am ddefnydd ar-lein eu plentyn:

- gweld cynnwys a oedd yn amhriodol i'w hoedran (75%)
- gweld cynnwys 'i oedolion' neu rywiol (73%)
- cael eu bwlio ar-lein (70%)
- cael eu bwlio drwy gemau fideo (54%)



*Ffynhonnell: Plant a Rhieni: Agweddau a Defnydd o Gyfryngau, Ofcom (2023)*

2.22 Er bod y Ddeddf yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar-lein, byddwn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn cynnal pwysigrwydd rhyddid mynegiant ar-lein wrth i ni ymgymryd â'n dyletswyddau newydd.

2.23 Er mwyn parhau i sicrhau bod defnyddwyr yn aros yn ddiogel ar-lein, mae angen i wasanaethau sicrhau bod diogelwch defnyddwyr wrth galon eu penderfyniadau. Wrth i ni weithredu camau dilynol y Ddeddf yn ystod blynyddoedd y dyfodol, byddwn hefyd yn defnyddio ein pwerau adrodd ar dryloywder i daflu goleuni ar ba mor effeithiol yw systemau a phrosesau llwyfannau o ran diogelu eu defnyddwyr, ac i gymell rhagor o welliannau.

2.24 Ers 2020, rydym wedi bod yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU, fel TikTok, Snapchat a Twitch. Mae'r profiad rydyn ni wedi'i gael o'r drefn hon wedi bod yn amhrisiadwy o ran siapio ein dull o ddatblygu'r drefn diogelwch ar-lein.

2.25 Ar sail y blaenoriaethau a nodir yn y Ddeddf, rydym wedi nodi pedwar canlyniad clir rydym yn ceisio eu cyflawni:

- Llywodraethu: Mae gan wasanaethau drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd priodol ar waith i asesu risg i ddefnyddwyr, yn enwedig plant.
- Dyluniad a gweithrediadau: Mae gwasanaethau'n rhoi'r ymddiriedaeth a'r mesurau diogelwch sydd eu hangen ar waith i liniaru risgiau a chadw defnyddwyr yn ddiogel.
- Dewis: Mae defnyddwyr yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n gallu ei wneud i fod yn fwy diogel ar-lein, gan gynnwys rheoli'r cynnwys maen nhw'n ei weld, y bobl maen nhw'n rhyngweithio â nhw a gallu rhoi gwybod am gynnwys niweidiol yn hawdd.
- Ymddiriedaeth: Mae Ofcom yn cael ei sefydlu fel rheoleiddiwr diogelwch ar-lein credadwy a dibynadwy.

2.26 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein rhaglenni gwaith allweddol i gefnogi'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:

## Diogelwch Ar-lein

- **Gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein:** Rydym wedi symud yn gyflym yn sgil pasio'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ym mis Hydref 2023 – gan lansio'r ymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon yn fuan ar ôl i'r Ddeddf ddechrau a chyhoeddi ein canllawiau drafft ar sicrhau oedran. Dyma'r camau cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau sy'n siapio pensaernïaeth reoleiddiol y drefn diogelwch ar-lein ac sy'n rhoi cyfle pwysig i'n rhanddeiliaid helpu i siapio ein dull gweithredu. Yn ystod gwanwyn 2024, byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriadau ar godau a chanllawiau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, a bydd gofynion rheoleiddio ychwanegol sy'n berthnasol i'r gwasanaethau mwyaf a'r rhai sy'n cael eu defnyddio fwyaf yn dilyn yn 2025. Rydym wedi cyhoeddi trosolwg o'r dull gweithredu rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer gweithredu, gan gynnwys map sy'n rhoi rhagor o fanylion.
- **Ymgysylltu â gwasanaethau ar-lein o fewn ffiniau'r drefn newydd:** Rydym wedi nodi set gychwynnol o wasanaethau risg uchel neu fawr eu cyrhaeddiad rydym yn dymuno

ymgysylltu â nhw. Rydym wedi gosod disgwyliadau clir o ran natur ein hymgysylltiad â'r gwasanaethau hyn, er mwyn deall eu hasesiad a'r mesurau lliniaru risgiau y mae'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau yn eu hwynebu, gan gynnwys drwy ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu perthynas â'r ystod amrywiol o wasanaethau sy'n dod o dan y drefn diogelwch ar-lein, ac yn datblygu ein dealltwriaeth ohonynt, ac rydym wedi rhoi amrywiaeth o gymorth pwrpasol ar waith ar gyfer gwasanaethau llai. Mae hyn yn cynnwys offer digidol i'w helpu i ddeall goblygiadau posibl y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i'w busnes a'u defnyddwyr.

- **Datblygu ein heffeithiolrwydd gweithredol:** Mae'r Ddeddf yn estyniad sylweddol o ddyletswyddau Ofcom ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i gyflawni'r drefn newydd yn llwyddiannus. Drwy ein gwaith ymchwil a dadansoddi parhaus, byddwn yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch niwed ar-lein a'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Byddwn yn parhau i gydweithio â rheoleiddwyr y DU, yn enwedig mewn meysydd lle gallai rhyngweithio neu gyfaddawdu ddigwydd rhwng ein hamcanion, gyda'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn fforwm allweddol ar gyfer cydweithredu. Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr a llunwyr polisi tramor i weithredu neu i ystyried cyfundrefnau tebyg, gan gynnwys drwy'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) y bydd Ofcom yn ei gadeirio yn 2024. Bydd hyn yn arwain at gysondeb ac yn lleihau beichiau rheoleiddiol lle bo'n bosibl, ac yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rheoleiddio.

## Llwyfannau Rhannu Fideos

2.27 Ym mis Hydref 2022 cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf a oedd yn ymwneud â gwaith Ofcom i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y DU. Roeddem wedi adrodd ar y camau roedd y llwyfannau hyn wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r drefn newydd ac wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer yr ail flwyddyn, yn benodol sut mae llwyfannau'n gosod, yn gorfodi ac yn profi eu hagwedd at ddiogelwch defnyddwyr. Gan edrych ymlaen at 2024/25, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Goruchwylio llwyfannau:** Datblygu ymhellach y perthnasoedd goruchwylio effeithiol rydym wedi'u meithrin gyda'n llwyfannau hysbysedig. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein perthynas oruchwylio â llwyfannau i ddeall beth maen nhw'n ei wneud i gadw eu defnyddwyr yn ddiogel, i gael cipolwg ar faterion sy'n dod i'r amlwg, ac i'w hannog i wella eu systemau a'u prosesau diogelwch defnyddwyr.
- **Tryloywder y diwydiant:** Byddwn yn parhau, lle bo hynny'n briodol, i gyhoeddi allbynnau sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o sut mae llwyfannau rhannu fideos yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y drefn llwyfan rhannu fideos.
- **Gorfodi:** Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hystod lawn o bwerau gorfodi i hyrwyddo cydymffurfiad â'r drefn llwyfan rhannu fideos.

2.28 Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer y drefn hon ddechrau 2024. Mae'r drefn llwyfan rhannu fideos wedi bod mewn grym ers dwy flynedd bellach. Fodd bynnag, mae'n drefn oes gyfyngedig a fydd yn cael ei diddymu yn y pen draw, a bydd ein llwyfannau sydd wedi'u hysbysu yn cael eu rheoleiddio o dan y drefn diogelwch ar-lein.

Byddwn yn helpu llwyfannau rhannu fideos sydd wedi cael eu hysbysu i baratoi ar gyfer y newid hwn.

## Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau

2.29 Byddwn yn parhau i weithio i fynd i'r afael â heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar draws y DU drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn dod â phenodolrwydd ychwanegol i'n dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y rheini sydd fwyaf tebygol o gael eu niweidio gan gynnwys ar-lein, gan gynnwys menywod a merched, ar gamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol ac ar gynnwys o bwysigrwydd democrataidd. Ar ben hynny, mae gennym ddyletswyddau mewn perthynas ag ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau y gall llwyfannau eu cymryd i liniaru niwed, gwerthuso a chyfeirio adnoddau.

2.30 Yn ogystal â'n cyhoeddiadau ymchwil helaeth, rydym yn gweithio gyda llwyfannau (ac yn ymgysylltu ag academyddion, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill) i gyd-greu egwyddorion arfer gorau ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddylunio, a fydd yn grymuso defnyddwyr i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

2.31 Ym mis Ebrill 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Blynyddol Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau a oedd yn edrych yn ôl ar yr hyn roeddem wedi'i gyflawni yn 2021/22 ac yn rhoi manylion ein cynlluniau ar gyfer 2022/23. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r cynllun hwnnw. Mae hefyd yn ofynnol i ni ymgynghori ar strategaeth y mae'n rhaid ei gosod allan am ddim mwy na thair blynedd ar y tro. Bydd hon yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2024 a bydd yn adlewyrchu ein dyletswyddau diwygiedig a'n blaenoriaethau penodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith ar draws ein pum 'Elfen', fel y nodwyd yn ein dogfen Dull Gweithredu a gyhoeddwyd yn 2021. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymgysylltu â'r sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb, ein Panel Cynghori a gweithgorau arbenigol.
- Sefydlu egwyddorion arfer gorau ar gyfer ymyriadau ar-y-llwyfan i annog ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fwriadol.
- Comisiynu amrywiaeth o ymyriadau peilot ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer grwpiau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol ledled y Deyrnas Unedig.
- Cyhoeddi pecyn o adnoddau digidol i hyrwyddo dull cyffredin o werthuso cynlluniau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.
- Parhau i gynyddu ein sylfaen dystiolaeth i lywio ein gwaith ni a gwaith y sector ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

Sicrhau defnydd effeithlon o sbectrwm a chefnogi twf ar draws yr economi

Mae cyfathrebu di-wifr yn chwarae rhan gynyddol bwysig ar draws sawl sector o'r economi ac yn cefnogi'r gwaith o ddigideiddio nifer o sectorau. Mae'r canlyniad blaenoriaethol hwn yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau sbectrwm ac yn ceisio dal i fyny â'r galw cynyddol am dechnoleg ddi-wifr, gan gefnogi amrywiaeth o wasanaethau a galluogi arloesedd.

2.32 Mae sbectrwm radio yn allweddol i gyflawni amrywiaeth eang o dechnolegau a gwasanaethau di-wifr sy'n rhan o'n bywydau bob dydd, ac sy'n cynorthwyo busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau symudol, Wi-Fi, Bluetooth, radio wedi'i ddarlledu, teledu, a llywio â lloeren. Mae'r sbectrwm hefyd yn hanfodol i gefnogi'r gwasanaethau brys, rheoli traffig awyr a radar, a'n lluoedd arfog.

2.33 Mae'r galw am yr adnodd cyfyngedig hwn yn parhau i gynyddu. Fel y nodir yn ein Map Sbectrwm, ein nod yw sicrhau bod yr adnodd anweledig a hanfodol hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon er budd pawb yn y DU. Yn benodol, rydym yn ceisio sbarduno arloesedd. Rydym yn gwneud hyn drwy alluogi defnyddwyr i gael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt drwy ddyrannu sbectrwm yn amserol, cefnogi dulliau awdurdodi effeithiol, manteisio ar botensial rhannu gwahanol gymwysiadau a defnyddwyr, a sicrhau bod yr adnodd anweledig a hanfodol hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol er budd pawb yn y DU.

2.34 Er na fydd defnyddwyr o reidrwydd yn dod ar draws y canlyniadau rydym ni'n ceisio eu cyflawni gyda'r flaenoriaeth hon, mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd ati bob dydd i ddefnyddio'r gwasanaethau rydym ni'n eu galluogi.

Gall lefelau lleithder a thymheredd newidiol effeithio ar ymlediad tonnau radio ac ansawdd gwasanaethau di-wifr. Felly, defnyddiom ddata o dros 300 o fesuryddion glaw y Swyddfa Dywydd i ddiweddaru ein dealltwriaeth o ddwysedd glaw ar draws y DU.



2.35 Wrth ymgymryd â'n gwaith i 'alluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach', rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Mae sbectrwm ar gael i alluogi'r diwydiant cyfathrebu i fodloni'r twf a'r arloesi a ragwelir mewn gwasanaethau symudol a di-wifr i ddefnyddwyr.
- Mae sbectrwm ar gael i ddiwallu anghenion arbenigol sectorau allweddol (er enghraifft, cyfleustodau, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth).
- Darperir ar gyfer rhagor o ddefnyddwyr drwy welliannau parhaus o ran effeithlonrwydd defnyddio sbectrwm.
- Mae buddiannau'r DU yn cael eu cynrychioli'n effeithiol mewn trafodaethau rhyngwladol ar ddyrannu a defnyddio sbectrwm.
- Mae cyflawni gweithredol yn sicrhau bod sbectrwm ar gael a bod ymyriant niweidiol yn cael ei liniaru drwy weithgareddau busnes fel arfer (trwyddedu, cynllunio, sicrwydd a chydymffurfio).

2.36 Mae ein rhaglen waith i gyflawni'r canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol:

- **Cefnogi'r broses o ddatblygu a chydgyfeirio rhwydweithiau:** Rydym am alluogi mynediad at sbectrwm i gefnogi cystadleuaeth, arloesedd a thwf ar draws gwahanol sectorau. Byddwn yn paratoi i ddyfarnu sbectrwm yn y bandiau mmWave 26GHz a 40GHz ar gyfer defnydd symudol, ond ni fyddwn yn dechrau'r broses arwerthiant nes bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi penderfynu ar y cynnig i uno Vodafone UK a Three UK. Ar wahân, byddwn yn sicrhau bod trwyddedau Mynediad a Rennir ar gael yn y band 26GHz. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ddyfarnu sbectrwm yn 1.4GHz ar gyfer defnydd symudol. Ar ben hynny, gan fod 6G, Wi-Fi y genhedlaeth nesaf a lloeren (rhwydweithiau di-ddaearol - NTN) yn parhau i fod yn ganolbwynt i esblygiad rhwydweithiau, byddwn yn gweithio i sicrhau bod modd cael gafael ar sbectrwm a/neu ei rannu gan y technolegau gwahanol hyn i ddiwallu anghenion busnes a defnyddwyr sy'n esblygu ledled y DU.
- **Cyflymu arloesi wrth rannu sbectrwm:** Byddwn yn parhau i sbarduno arloesedd ym maes rheoli sbectrwm yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i gefnogi defnyddio sbectrwm yn fwy effeithlon. Mae ein hadolygiad o'r fframwaith mynediad a rennir wedi nodi meysydd a fydd yn debygol o wella mynediad at y sbectrwm hwn ar gyfer ystod ehangach o ddefnyddwyr. Byddwn yn datblygu ein gwaith ymhellach i archwilio dulliau rhannu a chydfodoli arloesol ar gyfer awdurdodi sbectrwm ar draws gwahanol fandiau (er enghraifft yn y rhaglen Rhannu Hybrid yn y band Uwch 6GHz), gan fanteisio ar bartneriaethau blwch tywod sbectrwm gyda diwydiant a'r byd academaidd fel y bo'n briodol. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi data i fireinio ein modelau cydfodoli, ac i lywio ein polisïau.
- **Diweddaru ac adolygu'r fframwaith rheoli sbectrwm:** Mae ein gwaith yn ystyried datblygiadau rhyngwladol, technoleg a'r farchnad i alluogi mynediad amserol ac effeithlon at sbectrwm drwy sicrhau bod ein fframwaith rheoli sbectrwm yn addas i'r diben ar gyfer ystod gynyddol o fodelau busnes a gwasanaethau di-wifr. Byddwn yn parhau i gyflawni ein strategaeth Gofod, gan alluogi cyfathrebu lloeren arloesol i gefnogi defnyddwyr a busnesau yn y DU. Wrth i sectorau esblygu, byddwn yn edrych ar effaith y

newid yn y galw gan sectorau neu wasanaethau penodol, gyda chynlluniau penodol i adolygu cysylltiadau sefydlog a gwasanaethau lloeren symudol gan gynnwys lloeren yn uniongyrchol i ddyfais.

2.37 Bydd y meysydd hyn â gweithgarwch penodol yn cael eu hategu gan raglen waith barhaus sy'n cyfrannu'n sylweddol at wneud y defnydd gorau o sbectrwm ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys:

- **Arweiniad rhyngwladol ar reoli sbectrwm:** Byddwn yn cynrychioli buddiannau'r DU mewn trafodaethau a chytundebau rhyngwladol ar ddyrannu sbectrwm a'i ddefnyddio ar gyfer pawb sy'n defnyddio sbectrwm. Byddwn yn ystyried canlyniadau Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2023 (WRC-23) a'u heffaith ar ddatblygu polisïau a blaenoriaethau sbectrwm Ewropeaidd a'r DU yn y dyfodol. Byddwn yn cyfrannu at astudiaethau rhyngwladol sy'n archwilio modelau ac amodau cydfodoli ar gyfer gwasanaethau symudol (Wi-Fi / Telathrebu Symudol Rhyngwladol (IMT)) a lloeren (GSO / NGSO).
- **Gwella ein galluoedd gweithredol i gefnogi defnyddwyr sbectrwm:** Rydym yn rheoli tua 400,000 o drwyddedau sbectrwm byw ac yn parhau i roi cyngor a chymorth i'r defnyddwyr sbectrwm hyn. Rydym yn parhau i symud mwy o wasanaethau trwyddedu ar-lein, gwella mynediad at wybodaeth am sbectrwm, a gwella ein llwyfan trwyddedu i gefnogi penderfyniadau rheoleiddio sy'n darparu profiad gwell a mwy awtomataidd. Rydym yn ymchwilio i ymyriant niweidiol a defnydd anghyfreithlon neu heb awdurdod o sbectrwm ac yn lleihau'r risg o ymyriant niweidiol drwy gyfyngu ar argaeledd offer nad yw'n cydymffurfio.
- **Monitro a mesur:** Rydym yn gwneud gwaith monitro a mesur i lywio ein datblygiad polisi a'n hanghenion gweithredol. Er enghraifft, rydym wedi profi senarios rhannu sbectrwm rhwng Wi-Fi a gwasanaethau symudol ac rydym yn parhau i fesur effaith lefelau llygredd 'sŵn' radio electronig ar yr amgylchedd sbectrwm. Mae gennym hefyd raglen barhaus i ddilysu bod allyriadau o offer radio o fewn lefelau y cytunwyd arnyn nhw'n rhyngwladol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Byddwn yn cynnal mesuriadau i gefnogi ein hasesiad o gydymffurfiad Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol (MNOs) â'u rhwymedigaethau darpariaeth yn 2020 (sydd i fod i ddigwydd ddiwedd mis Mehefin 2024), o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN).
- **Cynllunio amleddau sbectrwm:** Rydym yn parhau i ymgysylltu â gwaith cynllunio technegol amleddau ar gyfer trwyddedeion sy'n defnyddio'r un sbectrwm mewn gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys ar gyfer darlledu radio a theledu.

## Rheoleiddio gwasanaethau post

2.38 Mae gwasanaethau post yn chwarae rhan allweddol mewn cymdeithas ac mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i'r galw newid o lythyrau i barseli. Rydym am sicrhau bod pob defnyddiwr post yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau fforddiadwy a dibynadwy ledled y DU sy'n diwallu eu hanghenion sy'n esblygu.

2.39 Mae ein gwaith o reoleiddio post yn seiliedig ar rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) y Post Brenhinol. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn diwallu anghenion defnyddwyr ac yn darparu gwasanaethau fforddiadwy, gan ystyried ei chynaliadwyedd ariannol a'i heffeithlonrwydd ar yr un pryd.

2.40 Ddechrau 2024 byddwn yn cyflwyno tystiolaeth ar yr angen i ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yng ngoleuni anghenion newidiol defnyddwyr a'r risg y bydd yn dod yn anghynaladwy yn ariannol. Byddwn yn gofyn am farn a mewnbwn gan randdeiliaid ar y dystiolaeth hon. Yn 2024/25 byddwn yn nodi ein canfyddiadau ac yn nodi'r camau nesaf priodol, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU.

2.41 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith monitro ar draws y sector post, a fydd yn edrych ar effaith rhwymedigaethau ar y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion, y rhwymedigaeth newydd ar weithredwyr i sicrhau bod cwsmeriaid anabl yn cael eu trin yn deg, yn ogystal â chynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol a chynaliadwyedd tymor hwy y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Yn olaf, rydym yn asesu perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn ystod 2023/24 a byddwn yn penderfynu a ddylid agor ymchwiliad pellach i'w faterion perfformiad parhaus.

# 3. Y Gwledydd

3.1 Dylai gwasanaethau cyfathrebu ddiwallu anghenion pobl a busnesau ni waeth beth yw eu lleoliad daearyddol, ac mae yna agweddau unigryw ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyfathrebu eu darparu a'u derbyn yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhai rhanbarthau yn Lloegr. Er enghraifft, mae tirweddau Cymru a'r Alban yn darparu heriau penodol o ran sicrhau bod cyfathrebiadau effeithiol a dibynadwy ar gael i'w hardaloedd mwyaf gwledig, ac mae ar gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon angen ac eisiau gweld eu cymunedau'n cael eu cynrychioli a'u portreadu'n ddilys ar draws teledu a radio.

3.2 Mae ein timau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast yn helpu i sicrhau ein bod yn deall ac yn mynd i'r afael ag amgylchiadau penodol defnyddwyr a rhanddeiliaid ym mhob un o'r gwledydd. Mae ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol statudol yn ein cynghori ynghylch buddiannau a phryderon pobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, ac maen nhw'n rhan bwysig o'n proses o lunio polisïau.

3.3 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mhob gwlad yn sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau rhanddeiliaid, defnyddwyr a chynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli ar lefel Bwrdd yn Ofcom. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â llofnodwyr pob Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys y llywodraethau a'r seneddau perthnasol, wrth gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2024/25.

3.4 Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y DU hefyd yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o wledydd y DU. Mae gofyniad statudol hefyd i bob un o wledydd y Deyrnas Unedig fod â'i chynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy'n cynrychioli anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel.

3.5 Bydd y gwaith a nodir ym mhob un o'n canlyniadau blaenoriaethol uchod yn effeithio ar y DU gyfan, gyda rhai ffrydiau gwaith yn arbennig o berthnasol yn y gwledydd. Er enghraifft, byddai diwygiadau'r Bil Cyfryngau yn darparu ar gyfer argaeledd ac amlygrwydd gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein ledled y DU ac ar gyfer eu cynulleidfaoedd targed ym mhob un o Wledydd y DU.

3.6 Yn olaf, rydym wedi ymrwymo i gael gweithlu sy'n gynrychioliadol o boblogaeth y DU. Ochr yn ochr â'n swyddfa newydd yng Nghaeredin, rydym yn parhau i gynyddu ein presenoldeb ym Manceinion, Belfast a Chaerdydd. Isod, gallwch weld amlinelliad o'r prif feysydd gwaith a blaenoriaethau ar gyfer pob un o'n gwledydd.

## Yr Alban

3.7 Er mwyn gwella cysylltedd sefydlog a symudol, byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol a rheoleiddiol i gefnogi mentrau'r llywodraeth, gan gynnwys rhaglen Cyrraedd 100% Llywodraeth yr Alban a Phrosiect Gigabit Llywodraeth y DU yn yr Alban. Yn 2024, bydd Ofcom yn asesu cydymffurfiad Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol â gwelliannau i ddarpariaeth a ariennir gan y diwydiant o dan y Rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn drwy ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban, y gweithredwyr rhwydweithiau symudol, Digital Mobile Spectrum Limited (DMSL) a rhanddeiliaid ehangach –

gan gynnwys drwy ein statws Sylwedydd ar weithgor Llywodraeth yr Alban/DMSL, sy'n cyfrannu at strwythurau llywodraethu ehangach y DU.

3.8 Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo arloesedd technolegol drwy'r prosiect ON-SIDE yn Glasgow i ddefnyddio Sbectrwm Mynediad a Rennir i gefnogi rhwydweithiau annibynnol 5G preifat. Ar ben hynny, byddwn yn sicrhau bod pobl yn yr Alban yn cael cymorth drwy'r newid i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) a'r broses o ddiffodd gwasanaethau 3G drwy gydol 2024/25 a thu hwnt.

3.9 Yn unol â gwaith Ofcom a gyhoeddwyd yn ddiweddar, byddwn yn hwyluso ymgysylltu rhagweithiol i sicrhau bod anghenion defnyddwyr a busnesau'r Alban o ran y gwasanaeth post cyffredinol yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu'n briodol, wrth i ni gyflwyno opsiynau ar gyfer ei ddatblygiad posibl yn y dyfodol. Byddwn hefyd, drwy ein presenoldeb ar Rwydwaith Defnyddwyr yr Alban, a thrwy weithio gyda sefydliadau fel Consumer Scotland a Citizens Advice Scotland, yn cefnogi defnyddwyr yn yr Alban sy'n wynebu problemau fforddiadwyedd a bregusrwydd cynyddol.

3.10 O ran darlledu, byddwn yn cwblhau'r broses aildrwyddedu ar gyfer Channel 3, gydag STV ac ITV yn gwneud cais i adnewyddu eu trwyddedau, sy'n darparu rhwydwaith Channel 3 i wylwyr ledled yr Alban. Ar gyfer darlledu Gaeleg, byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol ar gyfer MG ALBA, yn enwedig o ran penodi ei Aelodau Bwrdd i sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r arbenigedd i gyflawni ei ddyletswyddau a'i uchelgeisiau i fod yn sefydliad cyfryngau modern sy'n edrych tua'r dyfodol.

3.11 Wrth gefnogi defnyddwyr i fyw bywyd mwy diogel ar-lein, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod y drefn diogelwch ar-lein yn cael ei rhoi ar waith yn ddidrafferth mewn cyd-destun datganoledig, yn enwedig gan ei bod yn cyflwyno ei hystod ei hun o fesurau i dargedu trais yn erbyn menywod a merched. Byddwn yn hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr Alban yn ystod ein hymgynghoriadau i annog amrywiaeth eang o ymatebion sy'n adlewyrchu safbwyntiau o bob rhan o'r wlad, ac yn adeiladu ar ein partneriaeth â Red Chair Highland yn Inverness wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

3.12 Yn cefnogi ein gwaith yn yr Alban mae ein swyddfa newydd yn Quartermile Caeredin, gofod y byddwn yn ei ddefnyddio i gynyddu ein presenoldeb yn yr Alban ac i gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid drwy gydol y flwyddyn.

## Cymru

3.13 Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod defnyddwyr, rhanddeiliaid a chydweithwyr yng Nghymru'n gallu ymgysylltu'n naturiol ag Ofcom yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn ymdrechu i wneud hyn yn unol â'n dyletswyddau presennol a byddwn yn parhau i adolygu ein darpariaeth. Rydym wedi sefydlu perthynas waith dda gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'i swyddfa, a byddwn yn parhau i gydweithio a chwarae ein rhan i helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.14 Ar ôl cwblhau'r adolygiad o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a Llywodraeth y DU, rydym yn edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu'n llawn â'r holl bartïon er mwyn gweithredu'r memorandwm yn y ffordd orau. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Aelod newydd Cymru ar Fwrdd Ofcom.

3.15 Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n eang â'n rhanddeiliaid er mwyn deall eu blaenoriaethau a'u pryderon yn llawn. Byddwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle gorau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Ofcom ar yr holl raglenni gwaith perthnasol. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi drwy'r cyfnod pontio wrth i ddarparwyr rhwydwaith roi'r gorau i ddefnyddio eu hen rwydweithiau a'u disodli â systemau modern, a diffodd rhwydweithiau 2G/3G.

3.16 Byddwn yn gweithio gyda'r cymunedau gwledig sy'n cael trafferth cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu o ansawdd da ac yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth perthnasol. Yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, lle mae defnyddio rhwydweithiau ffeibr yn gymhleth ac yn gostus, byddwn yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth o dechnolegau amgen fel mynediad di-wifr sefydlog a lloerennau sy'n cylchdroi'n isel o gwmpas y ddaear, a allai gynnig atebion ymarferol i rai cymunedau.

3.17 Gan weithio gyda chydweithwyr ledled y DU, byddwn yn adrodd ar berfformiad y BBC o dan ei Drwydded Weithredu newydd. Byddwn hefyd yn ail-drwyddedu ITV Cymru Wales er mwyn iddo allu parhau i ddarparu lluosogrwydd y mae mawr ei angen mewn gwasanaethau newyddion a materion cyfoes yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfresi ffeithiol sydd o ddiddordeb penodol i gynulleidfaoedd.

3.18 O ran diogelwch ar-lein, byddwn yn ehangu ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru i gynnwys swyddogion sydd â chyfrifoldebau penodol fel y tîm Cadernid Digidol mewn Addysg. Byddwn hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau newydd Ofcom ac egluro beth rydym yn ei wneud i wneud bywyd ar-lein yn fwy diogel i bawb, yn enwedig plant.

## Gogledd Iwerddon

3.19 Byddwn yn cefnogi defnyddwyr Gogledd Iwerddon drwy newidiadau mewn technolegau cyfathrebu fel diffodd 2G/3G ac – o ystyried cyflwyno rhwydwaith ffeibr uwch Gogledd Iwerddon – yn cefnogi symud i Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) a sicrhau bod manteision cysylltedd gwell yn cael eu gwireddu ledled Gogledd Iwerddon. Gan ymateb i faterion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd telathrebu, byddwn yn gwella ymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael i ddefnyddwyr (fel tariffau cymdeithasol) drwy weithio gydag adrannau'r llywodraeth, grwpiau eiriolaeth defnyddwyr, elusennau a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

3.20 Ym maes y post, byddwn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid yng Ngogledd Iwerddon wrth i ni wneud gwaith yn edrych ar opsiynau posibl ar gyfer dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol.

3.21 Drwy gydol prosesau aildrwyddedu Channel 4, a Channel 3 a Channel 5, a thrwy ein gwaith rheoleiddio parhaus ar y BBC, byddwn yn sicrhau bod safbwyntiau a phryderon cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi. Byddwn yn parhau i ystyried effaith newidiadau i'r dirwedd ddarlledu yng Ngogledd Iwerddon, a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol, byddwn yn cynnal dealltwriaeth glir o bwysigrwydd cynnwys lleol ac yn sicrhau bod cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

3.22 Wrth i'r drefn diogelwch ar-lein gael ei sefydlu, byddwn yn cryfhau ac yn dyfnhau'r berthynas â rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon er mwyn i gynrychiolwyr etholedig a swyddogion y llywodraeth, y sector technoleg lleol, grwpiau diogelu a grwpiau eiriolaeth

defnyddwyr ddeall rôl reoleiddio Ofcom yn llawn. Byddwn yn ceisio nodi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar brosesau ymgynghori i sicrhau bod materion, cyd-destunau ac arbenigedd sy'n benodol i Ogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn briodol drwy gydol y broses. Byddwn yn cydlynu ac yn cynnal cysylltiadau â Coimisiún na Meán (Comisiwn Cyfryngau Iwerddon newydd) a rhanddeiliaid perthnasol eraill yng Ngweriniaeth Iwerddon wrth i'r drefn diogelwch ar-lein ddatblygu yno.

3.23 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yn Iwerddon – ComReg a Coimisiún na Meán– ac yn cynnig cyngor i Lywodraeth y DU a chyrff defnyddwyr i sicrhau bod pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i elwa o wasanaethau cyfathrebu sy'n cael eu darparu ar draws y DU ac ar draws yr ynys gyfan.

## Lloegr

3.24 Byddwn yn ystyried anghenion cyfathrebu defnyddwyr ledled Lloegr. Mae Pwyllgor Cynghori statudol Lloegr yn parhau i gyfrannu at benderfyniadau polisi Ofcom drwy nodi materion sy'n effeithio ar y sectorau cyfathrebiadau yn Lloegr. Er enghraifft, byddwn yn monitro effaith y newidiadau arfaethedig i radio lleol y BBC ar gynulleidfaoedd yn Lloegr.

3.25 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol i gefnogi cyflymder cyflwyno ffeibr a mwy o ddarpariaeth symudol yn ogystal â sicrhau dibynadwyedd a chadernid rhwydweithiau. Mae ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd yn tynnu sylw at gynlluniau i ddefnyddio rhwydweithiau ffeibr a fydd yn darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Erbyn mis Mai 2026, nod y cynlluniau yw cynnwys 98% o eiddo trefol a 78% o eiddo gwledig ledled Lloegr.[10]

3.26 Wrth i ni barhau i dyfu ein gweithlu ar draws y DU, mae ein swyddfa ym Manceinion bellach yn cefnogi dros 100 o gydweithwyr, ar draws cylch gwaith Ofcom, sy'n cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gwaith hwn.

[10] Gosodiadau Rhwydwaith Cynlluniedig Cysylltu'r Gwledydd (ofcom.org.uk)

# 4. Sut rydym yn cyflawni

4.1 Mae swyddogaethau amrywiol ar draws Ofcom yn cydweithio i gyflawni ein hymrwymiadau. Isod, rydym wedi amlinellu ein hagwedd at bartneriaethau, ein gwaith sylfaenol, a sut rydym yn buddsoddi yn ein gallu sefydliadol ac yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

## Partneriaethau

4.2 Rydym yn cydnabod na all Ofcom wneud llawer o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni ar gyfer defnyddwyr a'n sectorau ar ei ben ei hun, ac rydym yn dibynnu fwyfwy ar amrywiaeth o bartneriaethau pwysig yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

### Partneriaethau domestig

- **Parhau i weithio gyda rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer materion a gwasanaethau digidol. Cyhoeddodd y Fforwm ei gynllun gwaith blynyddol ym mis Ebrill 2023, sy'n amlinellu'r prif feysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod (2023/24). Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar y cyd ar sganio'r gorwel; cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith Deallusrwydd Artiffisial y Llywodraeth; a'n ffrwd waith Galluogi Arloesi, sydd wedi arwain at gyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Medi ynghylch cynllun peilot 'Canolfan Deallusrwydd Artiffisial a Digidol' y Fforwm. Nod y cynllun peilot hwn fydd helpu busnesau i lywio drwy'r broses o wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial, a bydd yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2024. Mae'r Fforwm hefyd wedi lansio Cais am Fewnbwn cyhoeddus, sy'n gofyn am safbwyntiau ynghylch pa feysydd y dylai eu blaenoriaethu yn ei gynllun gwaith blynyddol nesaf (2024/25), a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024. Rydym yn gweithio'n arbennig o agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau cysondeb rhwng ein cynigion diogelwch ar-lein a'r gyfraith diogelu data.
- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig (UKRN).** Rydym yn gweithio gyda deuddeg o reoleiddwyr eraill y DU o'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â heriau ar draws gwahanol sectorau, i rannu arferion gorau ac i sbarduno newid cadarnhaol fel aelod o'r Rhwydwaith. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i lywio a chyfrannu at ddadleuon polisi, adolygiadau rheoleiddio a materion traws-sector. Yn arbennig, byddwn yn parhau i gyfrannu at waith ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Ymgysylltu â'r gymuned academaidd i helpu i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth.** Rydym yn canolbwyntio ar feithrin perthynas ag ymchwilwyr academaidd i sicrhau bod gwaith Ofcom yn cael ei lywio gan y wybodaeth ddiweddaraf gan ymchwil academaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer diogelwch ar-lein, lle byddwn yn gweithio gydag academyddion ar ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddeall profiadau defnyddwyr ar-lein yn effeithiol ac effaith mesurau diogelwch llwyfannau.

- **Parhau i weithio gyda'n cyd-reoleiddiwr yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA).** Mae trefniadau cyd-reoleiddio hirsefydlog ar waith rhwng Ofcom a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu sy'n berthnasol i hysbysebion darlledu, ar-alw a'r llwyfan rhannu fideos, sydd i fod i gael eu hadnewyddu yn 2024. Byddwn yn adolygu'r trefniadau i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben ac yn effeithiol o ran diogelu defnyddwyr rhag hysbysebion niweidiol.
- **Panel Cynghori a Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM).** Ar hyn o bryd mae gan ein Rhwydwaith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau 460 o aelodau sy'n cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gydweithio i wella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU. Mae ein Panel Cynghori yn llywio gwaith Ofcom i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant y Deyrnas Unedig.
- **Gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth.** Byddwn yn parhau ein perthnasau gwaith â chyrff gorfodi'r gyfraith a'r gymuned wybodaeth o ran ein cyfrifoldebau diogelwch ar-lein, diogelwch telathrebu a'n cyfrifoldebau sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau fel yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, yr Heddlu Metropolitanaidd, Heddlu Dinas Llundain, Heddlu'r Alban a Phencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y Deyrnas Unedig (GCHQ).
- **Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).** Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Ganolfan ym maes rhwydweithiau telathrebu yn unol â'r Ddeddf Diogelwch Telathrebu (TSA).
- **Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.** Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn fater cynyddol bwysig yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Yn 2023, roeddem wedi helpu i gynnull gweithgor diwydiant telathrebu yn gweithio gyda'r Fforwm Cysylltedd Digidol ac Accenture, a arweiniodd at lawer o'r darparwyr mwyaf yn ymrwymo i weithredu. Rydym yn cael ein calonogi gan gynnydd tebyg yn y sectorau darlledu a phost. Mae llawer o'n cwmnïau rheoledig wedi ymrwymo i gynlluniau sero net ac am y tro cyntaf byddwn yn crynhoi hyn yn ein hadroddiad 'Cysylltu'r Gwledydd'.

## Partneriaethau rhyngwladol

4.3 Fwyfwy, mae llawer o'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio yn gweithredu'n fyd-eang, fel y mae'r llwyfannau maent yn dibynnu arnynt i gyrraedd defnyddwyr. Felly, rhaid i ni weithredu fwyfwy nid yn unig mewn ymateb i brofiadau defnyddwyr y DU, ond hefyd gyda golwg ar yr hyn sy'n digwydd y tu hwnt i'n ffiniau.

4.4 Rydym yn gwneud hyn drwy ein gwaith rhyngwladol, gan gynrychioli Ofcom a'r DU mewn fforymau rhanbarthol a byd-eang, yn meithrin a defnyddio ein henw da dibynadwy i ddylanwadu ar bolisi ar lefel ryngwladol. Mae ein gwaith yn caniatáu i ni ddylanwadu ar lefel fyd-eang a sbarduno gwelliannau mewn meysydd technegol sy'n gofyn am atebion trawswladol ac aliniad rheoleiddiol, yn ogystal â defnyddio gwybodaeth eto i lywio ein gwaith yn ddomestig.

4.5 Mae ein gwaith rhyngwladol yn seiliedig ar ymgysylltiad parhaus a chysylltiadau strategol allweddol â rhwydweithiau a sefydliadau presennol fel yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU) a'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) a lansiwyd yn ddiweddar, yn ogystal â rhwydweithiau rheoleiddio rhanbarthol fel y Llwyfan Ewropeaidd o

Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA) a'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol (IRG). Mae hyn yn ychwanegol at ein perthynas ddwyochrog â rheoleiddwyr ledled y byd, a gyda melinau trafod a'r gymuned ymchwil fyd-eang. Yn fras, mae ein gwaith rhyngwladol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol cynyddol gydgysylltiedig – diogelwch ar-lein, marchnadoedd digidol, diogelwch a chadernid, a safonau technegol rhyngwladol – ac mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn cynnwys:

- O ran **diogelwch ar-lein**, byddwn yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol, gan gyfnewid arferion gorau a phrofiad. Yn benodol, rydym yn meithrin cydweithio ac yn eiriol dros normau cyffredin mewn diogelwch ar-lein, fel sylfaenwyr y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang, y byddwn yn ei gadeirio yn 2024, a thrwy'r Gweithgor Rhyngwladol ar Ddilysu Oedran. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid Ewropeaidd ar weithredu rheolau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a llwyfannau ar-lein eraill.
- Mewn **marchnadoedd cyfathrebiadau ar y rhyngrwyd**, ar ôl i'n gwaith ar niwtraliaeth y rhyngrwyd, gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein, a'r astudiaeth marchnad i wasanaethau cwmwl yn 2023 ddod i ben, byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus o ddatblygiadau a allai ddylanwadu ar ddyletswyddau Ofcom neu gael effaith arnynt. Er enghraifft, wrth i awdurdodau ledled y byd archwilio rôl rhyngweithredu mewn marchnadoedd fel gwasanaethau cyfathrebu personol ar-lein, neu rôl pyrth cynnwys digidol (fel setiau teledu cysylltiedig a seinyddion clyfar), bydd angen ystyried a chydweithredu ymhellach y rhyngweithio rhwng y camau a gymerir mewn gwahanol ardaloedd.
- O ran **diogelwch, cadernid rhwydwaith a safonau technegol**, rydym yn sbarduno canlyniadau i'r DU drwy'r Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU), lle rydym yn cynrychioli'r DU. Yn ogystal â bod yn gadeirydd y prif bwyllgor sbectrwm (ECC) ac yn is-gadeirydd y pwyllgor paratoadol (COM-ITU) ar gyfer y Rhanbarth Ewropeaidd, mae'r DU yn aelod etholedig o'r Cyngor Llywodraethu ar gyfer 2023-2026. Mae Ofcom hefyd yn dilyn trafodaethau'n agos ar safonau technegol sy'n effeithio ar ein sectorau mewn sefydliadau safoni sy'n cael eu harwain gan y diwydiant fel IETF (Tasglu Peirianneg Rhyngrwyd) a 3GPP (Prosiect Partneriaeth 3ydd Genhedlaeth).

4.6 Yn ogystal â'r gwaith ar ein blaenoriaethau strategol rhyngwladol, byddwn hefyd yn parhau i fod yn weithredol mewn materion sy'n ymwneud â **darlledu a chynnwys**. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y trafodaethau byd-eang ar ymatebion rheoleiddiol i sicrhau cynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, trafodaeth sydd wedi cymryd dimensiwn newydd ac yn hanfodol bwysig, wrth i rwydweithiau a gwasanaethau digidol alluogi bod twyllwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gyflym. Yn y cyd-destun hwn, mae rôl ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac elfennau digidol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig wrth i ni roi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhwydweithiau fel Llwyfan Ewropeaidd o Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), Tasglu Ewropeaidd ar Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth (EMIL) a Chynghrair Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Gwybodaeth UNESCO (MIL) i ddatblygu a chyfnewid arferion gorau ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn fyd-eang.

# Datblygu sgiliau a galluoedd

4.7 Ein hased mwyaf gwerthfawr yn Ofcom yw ein pobl. Wrth i'n sectorau esblygu ac wrth i'n cylch gwaith ehangu, mae'n hanfodol bod ein timau polisi a'n swyddogaethau proffesiynol yn addasu i gefnogi darpariaeth effeithiol ar draws pob rhan o'n busnes. Rydym yn cryfhau ein gweithlu drwy'r amser drwy recriwtio a thrwy uwchsgilio ein cydweithwyr, er mwyn i ni allu cyflawni ein swyddogaethau i'r safon uchaf.

- **Datblygu ein gallu i fod yn ddiogel ar-lein:** Y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yw'r ehangiad mwyaf i amrywiaeth o ddyletswyddau a phwerau Ofcom dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym wedi bod yn buddsoddi yn ein gweithlu i'n paratoi i gyflawni'r swyddogaethau hyn yn llwyddiannus. Yn dilyn gwaith paratoi helaeth, rydym bellach wedi sefydlu ein Grŵp Diogelwch Ar-lein yn ffurfiol sy'n dod â phobl sydd ag arbenigedd diogelwch ar-lein ynghyd ar draws disgyblaethau cyflawni, polisi a goruchwylio'r strategaeth. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu'r sgiliau technegol, y galluoedd a'r arbenigedd pwnc sydd eu hangen i gyflawni ein dyletswyddau diogelwch ar-lein yn llwyddiannus.

- **Datblygu ein swyddogaeth data a digidol:** Rydym yn datblygu dull gweithredu ar draws Ofcom ar gyfer data ac mae gennym Ganolfan Arloesi Data sy'n cael ei sefydlu i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddata, Deallusrwydd Artiffisial (AI) a dysgu peirianyddol i gefnogi ein swyddogaethau polisi a thu hwnt. Mae'n llywio datblygiad ein diwylliant a'n sgiliau sy'n canolbwyntio ar ddata. Rydym hefyd yn datblygu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer pob cydweithiwr i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r dull gweithredu cywir i'n galluogi i gael gwybodaeth werthfawr o ddata cymhleth.

- **Cryfhau ein gallu technolegol:** Mae technoleg ar flaen y gad o ran siapio'r galw, sbarduno tueddiadau defnyddwyr, yn ogystal â darparu gwasanaethau soffistigedig i ddefnyddwyr a busnesau. Felly, rydym yn parhau i gryfhau ein harbenigedd ar draws amrywiaeth o dechnolegau fel Deallusrwydd Artiffisial gan gynnwys arbenigeddau fel Golwg Cyfrifiadurol a Phrosesu Iaith Naturiol (NLP). Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn hyfforddiant arbenigol a recriwtio wedi'i dargedu mewn meysydd fel Technolegau Gwella Preifatrwydd (PET), Pensaernïaeth ddatganoledig/Blockchain, Realiti Estynedig (XR) a Hunaniaeth Ddigidol. Mae'r enghreifftiau hyn o arbenigedd penodol yn adlewyrchu ymrwymiad Ofcom i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau ym maes technoleg.

- **Meithrin dealltwriaeth fasnachol a sganio'r gorwel:** Rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio a sut mae ein rhanddeiliaid a'n marchnadoedd yn esblygu. Rydym yn cyflawni hyn drwy recriwtio o amrywiaeth o gefndiroedd a meithrin sgiliau a gwybodaeth ymysg ein cydweithwyr. Mae ein rhaglen sganio'r gorwel yn fewnbwn allweddol arall i ddatblygu ein dealltwriaeth o'n sectorau wrth i ni geisio rhagweld datblygiadau a thueddiadau yn y dyfodol drwy ymgysylltu, ymchwil a dadansoddi allanol.

- **Strategaeth Amrywiaeth a chynhwysiad:** Ym mis Awst 2023, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad cynnydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut rydym yn cyflawni ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad pum mlynedd. Mae Ofcom yn parhau i arwain y gwaith o gydweithio ar draws y sector telathrebu i roi hwb i fenywod yn y sector. Mae ein targed ethnigrwydd uwch wedi cael ei ymestyn i 19%, ar ôl rhagori ar ein targed blaenorol o 16%. Cawsom ein henwi hefyd ymhlith 50 cyflogwr gorau'r Sefydliad Symudedd Cymdeithasol yn y DU ar gyfer symudedd cymdeithasol.

- **Strategaeth gweithio'n gysylltiedig:** Mae 23% o gydweithwyr Ofcom y tu allan i Lundain erbyn hyn gyda dros 100 o gydweithwyr yn ein swyddfa ym Manceinion, yn ogystal â thwf i dros 80 o gydweithwyr yn ein swyddfa newydd yng Nghaeredin.

## Bod yn sail i waith ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

4.8 Mae Ofcom yn rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rydym yn cael y dystiolaeth, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnom mewn amrywiaeth o ffyrdd ar draws ein sectorau, gan gynnwys:

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth:** Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfathrebiadau a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr er mwyn darparu dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o bobl a busnesau. Rydym yn archwilio dulliau ymchwil arloesol gan gynnwys gwyddoniaeth ymddygiadol lle rydym wedi sefydlu Canolfan Mewnwelediadau Ymddygiadol i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cyfuno ein holl waith ymchwil â data sy'n cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y diwydiant a thrydydd partïon. Yn ogystal â llywio ein gwaith, mae ein hymchwil, a'n hymrwymiad i sicrhau bod y canfyddiadau ar gael yn gyhoeddus, yn cyflawni rhai o'n dyletswyddau statudol.
- **Peirianneg data a dadansoddi:** Mae'r Ganolfan Arloesi Data yn cefnogi gwaith polisi Ofcom a'n timau gweithrediadau o ran defnyddio data a dadansoddeg uwch. Rydym yn datblygu cynnyrch ac offer data i gynhyrchu gwybodaeth a helpu i wneud penderfyniadau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.
- **Cipolwg ar dechnoleg:** Mae gan ein swyddogaethau technoleg bwrpas deuol o helpu ein timau polisi i gyflawni eu blaenoriaethau presennol a gwneud gwaith blaengar i baratoi ar gyfer heriau yn y dyfodol. Rydym yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae technoleg yn sbarduno newid yn ein sectorau a'r effaith bosibl ar sut rydym yn gweithio.

4.9 Rydym hefyd yn awyddus i ddeall effaith ein gwaith ar ddefnyddwyr ac ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- **Asesiadau effaith:** Rydym wedi adolygu ein canllawiau asesu effaith i sicrhau bod ein dull o arfarnu polisi yn dilyn yr arferion gorau. Byddwn yn cynnal dadansoddiad i ddeall sut mae rhai o'n hymyriadau yn y gorffennol wedi siapio canlyniadau defnyddwyr, ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu technegau sy'n seiliedig ar ddata i fonitro prisiau, ansawdd a buddsoddiad yn y sector telathrebu. Byddwn hefyd yn ehangu ein fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso diogelwch ar-lein – gan gynnwys archwilio'r defnydd o ddulliau sy'n seiliedig ar ddata i gael cipolwg ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y drefn.
- **Papurau Trafod:** Pwrpas y gyfres barhaus hon o bapurau yw annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio cyfathrebiadau, a chyfrannu at y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i greu tystiolaeth gadarn i gefnogi ein penderfyniadau. Bydd ein hymchwil yn parhau i ymdrin â materion fel deall effeithiolrwydd mesurau sydd wedi'u dylunio i gadw defnyddwyr yn fwy diogel ar-lein a sut i fynd ati i reoleiddio mewn marchnadoedd digidol.

- **Casglu gwybodaeth:** Mae rhan allweddol o'n gwaith, a'n system ar gyfer rheoli'r effaith y mae hyn yn ei chael ar randdeiliaid, yn cael ei gyflawni drwy'r Gofrestrfa Gwybodaeth sy'n cydlynu ceisiadau gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid ar amseriad ceisiadau arfaethedig ac adborth ar gasglu gwybodaeth. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein dull o gasglu gwybodaeth yn 2024.

## Sicrhau gwerth am arian

4.10 Mae Ofcom yn ymdrechu i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol, ac rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu effeithlonrwydd ar draws ein gwaith. Ers Adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o Wariant yn 2015 rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus ehangach. Dros y cyfnod hwn, mae cap sylfaenol Ofcom ar gyfer ei ddyletswyddau ar y pryd wedi aros yr un fath ( ac eithrio cynnydd untro ar gyfer chwyddiant yn 2020/21), gan leihau'r gost rheoleiddio mewn termau real.

4.11 Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn parhau i wneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau a'n sgiliau drwy gynllunio strategol effeithiol a dull integredig o ymdrin â'n cyllideb a'n rhagolygon. Pan fydd angen buddsoddi, byddwn yn parhau i ddefnyddio rheolaeth ariannol dynn i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adnoddau sydd gennym, gan gynnwys defnyddio prosesau caffael cystadleuol i sicrhau'r pris a'r ansawdd gwasanaeth gorau gan gyflenwyr.

4.12 Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i symleiddio ac awtomeiddio gweithgareddau a wnawn i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno porth ar-lein ar gyfer trwyddedu radio awyrennau, amatur a llongau i gynyddu awtomeiddio gan wella profiad y trwyddedai ar yr un pryd. Rydym hefyd yn adolygu'r defnydd o'n hystâd ar y cyd â'n strategaeth gweithio cysylltiedig (mae'r manylion yn 4.7) a'n huchelgais i leoli cyfran fwy o swyddi y tu allan i Lundain.

4.13 O ran datblygu ein swyddogaeth diogelwch ar-lein mewn ffordd gadarn ac effeithlon, ym mis Gorffennaf 2023 adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar barodrwydd Ofcom ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein, gan nodi'r cynnydd yng nghwmpas y drefn a'r cynnydd canlyniadol yn nifer y gweithwyr sydd eu hangen i sicrhau gwaith paratoi a chyflawni effeithiol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Ofcom wedi gwneud dechrau da i'r paratoadau hyn ac wedi cymryd yr holl gamau y gallai fod wedi'u cymryd yn rhesymol erbyn y pwynt hwn.

## Cap gwariant ar gyfer 2024/25

4.14 Mae Llywodraeth y DU yn cytuno ar gap gwariant ar gyfer cyllideb Ofcom. Rydym wedi cytuno ar gap gwariant o £131.9 miliwn gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys EF, sydd wedi aros yr un fath ers 2021/22 ac sy'n ymwneud â'r dyletswyddau a oedd gennym bryd hynny. Mae hyn wedi arwain at arbedion termau real o 14% ar draws y sefydliad. Ers hynny, mae Ofcom wedi cael pwerau i ymgymryd â dyletswyddau newydd mewn diogelwch ar-lein, diogelwch telathrebu a chyfyngu ar hysbysebu cynnyrch bwyd a diod llai iach. Mae hyn wedi cynyddu ein cap gwariant i gyfanswm o £203.5m ar gyfer 2024/25. Yn dilyn newidiadau yn Llywodraeth y DU, bydd capiau gwariant Ofcom yn y dyfodol yn cael eu cytuno gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) a Thrysorlys EF.

4.15 Caiff ein costau eu hadennill gan y gweithredwyr yn y sectorau a thrwy gadw’r derbyniadau rydym yn eu casglu o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ar gyfer trwyddedu sbectrwm. Bydd y ffioedd sy’n ddyledus gan bob sector yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’n Datganiad Cynllun Gwaith yn ein tablau tariff ym mis Mawrth 2024. Mae’r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi’u gosod, a does dim newid wedi bod yn y fethodoleg rydym wedi’i defnyddio i gyfrifo’r costau hyn.

# A1. Beth rydym yn ei wneud

A1.1 Cenhadaeth Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Rydym yn rheoleiddio telathrebu llinell sefydlog a symudol, darlledu cynnwys radio a theledu, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r sbectrwm radio y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Mae Ofcom yn rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, a nawr ni yw rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y Deyrnas Unedig o dan y Bil Diogelwch Ar-lein. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y Deyrnas Unedig i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.

A1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydym yn rhoi cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith blaenorol ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y Deyrnas Unedig) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth. Mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.4 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- cynnal yr amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol sydd ar gael;

- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu ymosodol, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu heb gyfiawnhad;
- sicrhau bod digon o amddiffyniad i ddinasyddion rhag niwed a achosir gan gynnwys ar-lein ar wasanaethau a reoleiddir, drwy sicrhau bod darparwyr gwasanaethau o’r fath yn gwneud defnydd priodol o systemau a phrosesau sydd wedi eu dylunio i leihau’r risg o niwed o’r fath.
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y Deyrnas Unedig.

A1.5 Ym mis Tachwedd 2020, daeth rheolau newydd i rym a oedd yn rhoi’r cyfrifoldeb i Ofcom dros sicrhau bod llwyfannau rhannu fideos a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr sy’n defnyddio’r gwasanaethau hynny rhag y perygl o wylio cynnwys niweidiol. Ym mis Tachwedd 2023, cafodd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein gydsyniad Brenhinol a chafodd Ofcom ei benodi’n rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU.

A1.6 Ar 1 Hydref 2022, dechreuodd y drefn reoleiddio newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Telathrebu (Diogelwch) 2021 yn ffurfiol. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswyddau diogelwch newydd cryfach ar ddarparwyr telathrebu, gyda phwerau newydd i’r Llywodraeth nodi gofynion diogelwch. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd ar Ofcom i sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio.

A1.7 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo’r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelathrebu, yn wahanol i’w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo’n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.8 Yn ogystal â’n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi’r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

A1.9 Byddwn yn ystyried a yw’n fwy priodol arfer pwerau’r Ddeddf Cystadleuaeth neu’r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Atodiad Prosiectau

## Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adolygiad o Fynediad Telathrebu 2026 – 2031.** Byddwn yn dechrau ein hadolygiad o'r marchnadoedd telathrebu sefydlog cyfanwerthol a fydd yn gosod rheoliadau rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031 a byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad yn Ch4 2024/25. Bydd hyn yn cynnwys y marchnadoedd ar gyfer mynediad i seilwaith ffisegol, mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad i linellau ar brydles a marchnadoedd perthnasol eraill. | Ymgynghoriad Ch4 2024/25 |
| **Rheoleiddio Telathrebu yn Ardal Hull.** Byddwn yn dechrau ein hadolygiad o farchnadoedd telathrebu sefydlog adwerthu a chyfanwerthu yn ardal Hull a fydd yn gosod rheoliadau rhwng mis Tachwedd 2026 a mis Hydref 2031. | Parhaus |
| **Adolygiad o'r Farchnad Llais Cyfanwerthol 2026-31.** Byddwn yn dechrau adolygu'r gwaith o reoleiddio'r marchnadoedd terfynu llais cyfanwerthol rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Byddwn yn monitro'r farchnad ar gyfer terfynu SMS cyfanwerthol a'i heffaith ar y farchnad negeseuon busnes manwerthu i asesu a oes angen ymyriad rheoleiddiol. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion yn Ch1 2025/26 ac yna'n nodi ein penderfyniadau rheoleiddio mewn datganiad yn Ch4 2025/26. | Ymgynghoriad 2025/26 |
| **Marchnadoedd ffonau symudol.** Byddwn yn parhau i fonitro canlyniadau i ddefnyddwyr o ran prisiau, ansawdd a newidiadau i sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gan gynnwys drwy ddadansoddi data lefel cwsmeriaid sydd wedi'i ddiweddaru. | Parhaus |
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau.** | |
| Diogelwch: Gan ddefnyddio ein pwerau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Diogelwch Telathrebu, byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r fframwaith diogelwch newydd ac yn cyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiogelwch telathrebu yn Ch3 2024/25. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i gynnal ein cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST) ac ymgysylltu â chyrff safoni diogelwch i sicrhau'r gwelededd angenrheidiol. | Adroddiad Ch3 2024/25 |
| Cadernid: Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau ar gadernid eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar hyn y flwyddyn nesaf. Rydym yn parhau i gefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei safbwynt ar ofynion cadernid seilwaith digidol y dyfodol. | Datganiad Ch2 2024/25 |
| **Teitlau Byd-eang (GT) a Diogelwch Rhwydwaith Symudol.** Mae tystiolaeth o rywfaint o gamddefnyddio GT, gan godi diogelwch rhwydweithiau a risgiau eraill. Byddwn yn ymgynghori ar ymyriadau rheoleiddio posibl i fynd i'r afael â'r mater hwn a byddwn yn nodi ein penderfyniadau mewn datganiad. | Ymgynghoriad Ch1 2024/25<br>Datganiad Ch3 2024/25 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Arallgyfeirio gwerthwyr telathrebu.** Byddwn yn parhau i alluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi technoleg mewn amgylchedd sy'n fasnachol niwtral drwy lwyfan profi rhwydwaith mynediad radio agored Labordy SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN). Byddwn hefyd yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd gyda Llywodraeth y DU ar faterion arallgyfeirio. | Parhaus |
| **Niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Byddwn yn parhau i fonitro darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd, a'r ecosystem rhyngrwyd ehangach yn fwy cyffredinol, er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Niwtraliaeth y Rhyngrwyd a diweddaru Canllawiau Ofcom, gan gynnwys cymryd camau gorfodi lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad monitro blynyddol yn Ch3 2024/25. | Cyhoeddiad Ch3 2024/25 |
| **Diffodd PSTN.** Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) yn y dyfodol, yn cael eu nodi ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |
| **Diffodd 2G/3G.** Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr symudol a darparwyr gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar rwydweithiau 2G/3G i gefnogi'r broses o ddiffodd y rhwydweithiau. Ein nod yw helpu i leihau unrhyw darfu yn ystod y broses ddiffodd a helpu i ddiogelu cwsmeriaid rhag niwed, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed. | Parhaus |
| **Adolygiad o bolisi rhifau yn y dyfodol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. Byddwn yn ystyried diwygiadau i egluro rheolau'r cynllun rhifo ar rannu refeniw. | Datganiad Ch1 2024/25 |
| **Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (PSA).** Byddwn yn parhau â'r broses o drosglwyddo cyfrifoldebau o'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn i Ofcom. Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ein penderfyniad ynghylch y Gorchymyn Adran 122 drafft. Ar ôl i hyn ddod i rym, byddwn yn cymryd yr awenau'n ffurfiol wrth reoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn. | Datganiad Ch2 2024/25 |
| **Rhoi Newid Un Cam ar waith.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant ar ôl ei lansiad arfaethedig o Newid Un Cam ym mis Mawrth 2024 i sicrhau bod y broses newid newydd yn gweithio'n dda i gwsmeriaid band eang a llinell dir. | Parhaus |
| **Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu.** Bydd ein Traciwr Fforddiadwyedd chwarterol yn monitro ac yn adrodd ar i ba raddau mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebu, ynghyd â'n cyhoeddiad Tueddiadau Prisio yn Ch1 2024/25. Rydym yn monitro ymwybyddiaeth a defnydd darparwyr o dariffau cymdeithasol yn ogystal â hyrwyddo'r gwasanaethau hyn. | Cyhoeddiad Ch1 2024/25 |
| **Cefnogi cwsmeriaid agored i niwed.** Byddwn yn parhau i fonitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, ac yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn cynnwys gweithio â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau.** Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant, y Llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i'w gwneud yn anoddach i sgamiau gael eu cyflawni. Byddwn hefyd yn helpu defnyddwyr i osgoi sgamiau drwy godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth, a byddwn yn ymgynghori ar reolau newydd sy'n ymwneud â negeseuon sgam. | Ymgynghoriad Ch1 2024/25 |
| **Monitro a chydymffurfio ym maes amddiffyn defnyddwyr.** Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod ein hymyriadau diogelu defnyddwyr a'n mentrau gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw fesurau diogelu newydd gan gwsmeriaid sy'n ymwneud â chrwydro symudol, crwydro anfwriadol a phrosesau delio â chwynion. | Parhaus |
| **Diogelu cwsmeriaid wrth iddynt grwydro.** Byddwn yn parhau â'n gwaith ar brofiadau cwsmeriaid o grwydro symudol a chrwydro anfwriadol. Byddwn yn ystyried a oes angen mesurau i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid. | Parhaus |
| **Gwella profiad defnyddwyr a'r wybodaeth ar eu cyfer ynghylch darpariaeth symudol a'i berfformiad.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i wella cywirdeb a chysondeb y ddarpariaeth sydd ar gael, yn ogystal â gwybodaeth am berfformiad i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. Byddwn yn ystyried yn benodol y ddarpariaeth a'r perfformiad ar rwydwaith rheilffyrdd y DU. | Offeryn gwirio symudol newydd Ch3 2024/25 |
| **Adolygiad Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR).** Ar hyn o bryd, mae Ofcom yn cymeradwyo dau Gynllun ADR. Byddwn yn dechrau adolygiad o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau i asesu a yw defnyddwyr yn cael canlyniadau hygyrch, teg a chyson o'r cynlluniau ADR sydd ar gael yn y sector telathrebu. | Ymgynghoriad Ch3 2024/25 |
| **Codi prisiau yng nghanol contract yn unol â chwyddiant.** Mae'r adolygiad hwn yn ystyried a oes gan gwsmeriaid ffôn a band eang ddigon o eglurder ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl ei dalu am wasanaethau sy'n destun codiadau pris yng nghanol contract yn unol â chwyddiant. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i'n rheolau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni i sicrhau bod gan gwsmeriaid wybodaeth glir a thryloyw er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. | Datganiad Ch2 2024/25 |

## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod rhywun yn craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau sylweddol o safbwynt rheoleiddio. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn ei Fframwaith Gweithredu ac o dan ei Drwydded Weithredu newydd. Byddwn hefyd yn adrodd ar berfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus wrth iddo newid i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. | Adroddiad Ch3 2024/25 |
| **Aildrwyddedu Channel 3 a Channel 5.** Yn amodol ar dderbyn y telerau ar gyfer adnewyddu trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad a'r trwyddedau terfynol yn Ch1 2024/25. | Datganiad a Thrwydded Ch1 2024/25 |
| **Aildrwyddedu Sianel 4.** Yn dilyn ein hymgynghoriad, rydym yn disgwyl cyhoeddi datganiad ar adnewyddu trwydded Channel 4 yn Ch1 2024/25. | Datganiad Ch1 2024/25 |
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i ddatganiad Corfforaeth Channel 4 ar gyflawni ei chylch gwaith a'i dyletswyddau cynnwys cyfryngau yn 2023 a'i chynlluniau i'w cyflawni yn 2024. | Adroddiad Ch2 2024/25 |
| **Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a rhaglen waith.** Byddwn hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer yr Adolygiad nesaf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r rhaglen waith. Fel rhan o hyn, byddwn yn adrodd ar berfformiad a darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ac ar sut y gellir ei gynnal a'i gryfhau yn y dyfodol. | Adroddiad 2025/26 |
| **Diwygiadau i'r Bil Cyfryngau.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y cynigion a nodir yn y Bil Cyfryngau yn ystod ei daith drwy'r Senedd, ac ar ôl hynny byddwn yn dechrau gweithredu ei ddiwygiadau. Gall hyn gynnwys ymgynghoriadau ar ddiwygio'r system cwotâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus a datganiadau polisi rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; Cod diwygiedig ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig; diweddaru ein Canllawiau ar gyfer comisiynu cynhyrchwyr annibynnol; gwasanaethau dewis teledu ar-lein (TSS) i gynnig argaeledd ac amlygrwydd i wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. | I'w gadarnhau |
| **Argaeledd ac Amlygrwydd.** Yn amodol ar y Bil Cyfryngau, rydym yn disgwyl ymgynghori ar: yr egwyddorion a'r dulliau ar gyfer dynodi Gwasanaethau Dethol Teledu (TSS), Cod Ymarfer drafft a chanllawiau. | I'w gadarnhau |
| **Adolygiad o Gyfryngau Lleol.** Byddwn yn cynnal adolygiad eang o'r sector cyfryngau lleol yn y DU, gan ymdrin â phrint, radio, teledu a llwyfannau ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hymchwil ar yr hyn y mae ar gynulleidfaoedd ei angen a'i eisiau gan gyfryngau lleol, ac yn nodi sut mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. | Adroddiad ac ymchwil Ch3 2024/25 |
| **Adnewyddu trwydded teledu lleol.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl cwblhau eu hymgynghoriad sy'n canolbwyntio ar ddyfodol y sector teledu lleol, a byddwn yn cwblhau naill ai adnewyddu neu ail-drwyddedu'r trwyddedau gwasanaeth a'r drwydded amlblecs yn dibynnu ar hoff ddull yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Hygyrchedd gwasanaethau teledu ac ar-alw.** Byddwn yn parhau i orfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad darlledu (is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion) ac yn cyhoeddi gwybodaeth am hygyrchedd ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau arferion gorau wedi'u diweddaru i helpu i sicrhau bod darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw yn darparu'r gwasanaethau mynediad o'r ansawdd gorau posibl. | Cyhoeddi Ch1 2024/25 |
| **Cod hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS).** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gofynion hygyrchedd ar gyfer rhai gwasanaethau rhaglenni ar-alw, fel y nodir yn y Bil Cyfryngau. | I'w gadarnhau |
| **Rheoleiddio Fideo ar-alw (VoD).** Yn amodol ar basio'r Bil Cyfryngau, byddwn yn cael pwerau a dyletswyddau newydd i lunio a gweithredu Cod fideo ar-alw newydd sy'n berthnasol i'r darparwyr fideo ar-alw mwyaf (Gwasanaethau fideo ar-alw 'Haen 1'). Byddwn hefyd yn adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyflwr y farchnad fideo ar-alw i lywio'r broses o ddynodi'r gwasanaethau mwyaf fel gwasanaethau fideo ar-alw 'Haen 1'. | I'w gadarnhau |
| **Dynodi Amserlenni Rhaglenni Electronig (EPGs) ychwanegol wedi'u rheoleiddio.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dilyn ei hymgynghoriad ar reoleiddio Amserlenni Rhaglenni Electronig ychwanegol, a allai fod yn gorfod cael eu trwyddedu gan Ofcom yn ddiweddarach. | Parhaus |
| **Dyfodol Lluosogrwydd y Cyfryngau yn y Deyrnas Unedig.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddeall effaith newyddion ar-lein ar luosogrwydd yn y cyfryngau. Byddwn yn adolygu'r Rheolau Perchnogaeth Cyfryngau ac yn cyhoeddi ein hadroddiad, ac unrhyw argymhellion, i Lywodraeth y DU. | Adroddiad Ch3 2024/25 |
| **Dyfodol Dosbarthu Teledu.** Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar newidiadau yn y farchnad a allai effeithio ar Ddyfodol dosbarthu teledu ar deledu daearol digidol a llwyfannau dosbarthu eraill, er mwyn cyfrannu at raglen waith Llywodraeth y DU yn y maes hwn. | Adroddiad Ch1 2024/25 |
| **Monitro tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad ym maes darlledu.** Bydd ein gwaith o gasglu data TegACh ar gyfer 2024/25 yn adeiladu ar ddulliau casglu data newydd, a bydd ein cyhoeddiad blynyddol yn defnyddio'r data newydd hwn i adrodd ar dueddiadau TegACh yng ngweithluoedd darlledwyr. | Adroddiad Ch3 2024/25 |
| **Hysbysebu cynnyrch bwyd a diod llai iach.** Byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer y cyfyngiadau statudol newydd ar hysbysebu cynnyrch bwyd a diod llai iach. Mae'r cyfyngiadau, sy'n berthnasol i hysbysebion teledu, ar-alw ac ar-lein, yn dod i rym ym mis Hydref 2025. | Parhaus |
| **Diwygio rheoleiddio radio masnachol.** Yn amodol ar y Bil Cyfryngau, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau lleolrwydd newydd ac yn rhoi trefn newydd ar waith ar gyfer rheoleiddio darpariaeth newyddion lleol ar radio masnachol analog. | I'w gadarnhau |
| **Gwasanaethau dethol radio dynodedig.** Yn amodol ar y Bil Cyfryngau, byddwn yn ymgynghori ar sut byddwn yn arfer ein dyletswyddau wrth adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar arwyddocâd defnyddio gwasanaethau dewis radio, cyn i rai o'r gwasanaethau hynny gael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel 'Gwasanaethau Dethol Radio Rheoledig' (RRSS). | I'w gadarnhau |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **DAB ar raddfa fach.** Byddwn yn parhau i drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio newydd ar raddfa fach, gyda dros 100 o leoliadau eisoes wedi'u trwyddedu ledled y DU. | Parhaus |

** Mae amseriadau'n amodol ar hynt y Bil Cyfryngau*

## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Y rhaglen diogelwch ar-lein.** Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio a sefydlu ein gweithrediadau er mwyn paratoi i reoleiddio gwasanaethau ar-lein. | Parhaus |
| **Datblygu ac ymgynghori ynghylch ein dull rheoleiddio o ran gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.** Cafodd y Ddeddf hon ei phasio ym mis Hydref 2023 ac rydym yn cymryd camau i roi elfennau allweddol o'r drefn Diogelwch Ar-lein ar waith, gan gynnwys: Bydd y broses ymgynghori ar niwed anghyfreithlon (IH) yn cael ei chwblhau a bydd Codau IH a chanllawiau asesu risg yn cael eu cyhoeddi erbyn dechrau 2025; yn ogystal ag ymgynghoriad Amddiffyn plant (PoC) yn dechrau yn ystod gwanwyn 2024 gyda'r bwriad o gyhoeddi Codau yn 2025. | Datganiad Niwed Anghyfreithlon Ch3 2024/25<br><br>Ymgynghoriad Amddiffyn Plant Ch1 2024/25 |
| **Meithrin ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth.** Byddwn yn canolbwyntio ar barhau i ddatblygu ein perthynas â'r gwasanaethau rheoledig risg a chyrhaeddiad uchel, yn ogystal â buddsoddi yn y gwaith o ddarparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer gwasanaethau eraill. | Parhaus |
| **Tryloywder, grymuso defnyddwyr a dyletswyddau eraill ar wasanaethau wedi'u categoreiddio.** Mae ein cam gweithredu terfynol yn canolbwyntio ar ofynion ychwanegol sydd ond yn berthnasol i 'wasanaethau wedi'u categoreiddio' a byddwn yn dechrau ein hymgynghoriad ar ofynion tryloywder yn 2024 ac ar Godau ar gyfer gwasanaethau wedi'u categoreiddio yn 2025. | Ymgynghoriad tryloywder Ch1 2024/25 |
| **Datblygu galluoedd technegol Ofcom i ategu'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein.** Byddwn yn parhau i weithio i feithrin ein dealltwriaeth o sut mae gwasanaethau ar-lein yn gweithredu er mwyn cyfrannu at gyflawni'r drefn Diogelwch Ar-lein. | Parhaus |
| **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Bydd y drefn hon yn cael ei chynnwys yn y drefn diogelwch ar-lein a bydd deddfwriaeth llwyfannau rhannu fideos yn cael ei diddymu. Rydym yn cynllunio ein dull gweithredu a sut rydym yn sicrhau bod y drefn hon yn symud yn ddidrafferth i'r drefn diogelwch ar-lein. Bydd strategaeth llwyfannau rhannu fideos yn cael ei chyhoeddi ddechrau 2024. | Adroddiadau Ch1 2024/25 Ch3 2024/25 |
| **Rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Rydym yn parhau â'n gwaith o ran mynd i'r afael â heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn dod â manylion ychwanegol i'n dyletswyddau. Byddwn yn ymgynghori ar strategaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2024 a bydd yn adlewyrchu ein dyletswyddau diwygiedig a'n blaenoriaethau penodol. | Ymgynghoriad Ch1 2024/25<br><br>Datganiad Ch2 2024/25 |

## Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Dyfarnu sbectrwm mmWave (26GHz a 40GHz).** Rydym yn paratoi i ddyfarnu sbectrwm mmWave ar 26GHz a 40GHz i alluogi band eang di-wifr capasiti uchel. Byddwn yn dyfarnu'r sbectrwm hwn mewn ardaloedd dwysedd uchel, gan adlewyrchu ar natur y galw a nodweddion y sbectrwm. Ond ni fyddwn yn dechrau'r broses arwerthiant nes bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi penderfynu ar y cynnig arfaethedig i uno Vodafone UK a Three UK. | Memorandwm gwybodaeth Ch2 2024/25 |
| **Galluogi mynediad i 1.4GHz yn y dyfodol.** Byddwn yn paratoi i sicrhau bod sbectrwm 1.4GHz ychwanegol ar gael ar gyfer band eang di-wifr ar ôl clirio'r band o ddefnyddwyr cysylltiadau sefydlog presennol. | Ymgynghoriad Ch1 2024/25 |
| **Defnyddio'r 6 GHz uchaf yn y dyfodol.** Ystyrir bod y band 6GHz uchaf yn hanfodol i alluogi twf ar gyfer dyfeisiau symudol a Wi-Fi. Rydym wedi bod yn ystyried opsiynau i alluogi defnyddio'r band 6GHz Uwch (6425-7125MHz) ar gyfer defnydd hybrid er mwyn i ddyfeisiau symudol a Wi-Fi gydfodoli. Byddwn yn parhau â'n gwaith yn eiriol dros rannu hybrid a byddwn yn cyfrannu at astudiaethau rhyngwladol ar ôl WRC-23, er mwyn llywio opsiynau a modelau cydfodolaeth yn well. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y ffordd ymlaen i'r band yn y DU. | Ymgynghoriad Ch3 2024/25 |
| **Esblygiad band eang di-wifr a goblygiadau o ran y sbectrwm.** Byddwn yn parhau i gyfrannu at drafodaethau ac astudiaethau rhyngwladol, yng ngoleuni WRC-23, er mwyn deall yn well y galw posibl am sbectrwm ar gyfer band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf. | Cyhoeddiad Ch3 2024/25 |
| **Ymgysylltu â diwydiant a'r byd academaidd ar flychau tywod sbectrwm.** Byddwn yn adeiladu ar yr ymgysylltu cychwynnol â phrifysgolion a chwaraewyr yn y diwydiant ac yn parhau i archwilio'r potensial ar gyfer profi atebion arloesol ar gyfer rhannu sbectrwm yn fwy hyblyg ac effeithlon. | Parhaus |
| **Effaith cyflwyno ffeibr a thechnolegau newydd ar ddefnyddio cysylltiadau sefydlog di-wifr yn y dyfodol.** Byddwn yn adolygu'r ymatebion i'r Cais am Fewnbwn a gyhoeddwyd yn 2023/24 ac yn ystyried y goblygiadau o ran ein fframwaith sbectrwm ar gyfer cysylltiadau sefydlog yng ngoleuni datblygiadau technoleg a'r galw cynyddol gan sectorau eraill. | Diweddariad Ch1 2024/25 |
| **Galluogi cyfathrebu lloeren arloesol i gefnogi defnyddwyr a busnesau yn y DU.** Rydym yn cyflawni'r rhaglen waith a nodwyd yn ein Strategaeth sbectrwm gofod i ehangu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu lloeren yn y DU. Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer pyrth lloeren i gefnogi gwasanaethau band eang lloeren cyflymach i fusnesau a defnyddwyr. Yng ngoleuni datblygiadau technolegol sy'n galluogi trawsyrru lloeren yn uniongyrchol i ddyfeisiau symudol, byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod ein proses awdurdodi sbectrwm yn addas i'r diben. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rhyngwladol i ddatblygu rheoliadau sy'n galluogi cytserau lloeren NGSO. | Datganiad ar byrth Ch2 2024/25<br>CFI ar MSS Ch1 2024/25 |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Esblygiad llwyfannau trwyddedu.** Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i symud ein holl drwyddedau i lwyfan newydd, gan sicrhau mwy o awtomeiddio a gwella profiad y trwyddedai. | Mudo ysgolion hyfforddi amatur, llongau a CSR i borth trwyddedu newydd<br>Ch4 2024/25 |
| **Symleiddio'r Drwydded WTA (y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr).** Ochr yn ochr ag esblygiad ein llwyfan trwyddedu, byddwn hefyd yn adolygu ac yn symleiddio ein prosesau trwyddedu. | Parhaus |
| **Mesur llygredd sŵn radio cefndir.** Adrodd ar ein hymgyrch fesur barhaus i fesur y sŵn cefndir a gynhyrchir gan ein defnydd cynyddol o ddyfeisiau electronig bob dydd a deall ei effaith ar ddefnyddwyr sbectrwm. | Adroddiad<br>Ch2 2024/25 |
| **Esblygiad fframwaith trwyddedau mynediad a rennir.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i alluogi mynediad at sbectrwm i gefnogi arloesedd ar draws set ehangach o ddefnyddwyr yn y band 3.8-4.2GHz. | Datganiad<br>Ch1 2024/25 |
| **Cydymffurfiad Rhwydwaith Gwledig a Rennir 2024.** Byddwn yn gwneud mesuriadau wedi'u targedu i gefnogi ein hasesiad o gydymffurfiad gweithredwyr rhwydwaith symudol â'u rhwymedigaethau darpariaeth symudol 2024, o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir. | Adroddiad<br>Ch3 2024/25 |

# Post

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro effaith canllawiau a rhwymedigaethau newydd yn y farchnad parseli ar gyfer delio â chwynion a thrin cwsmeriaid anabl. Byddwn hefyd yn monitro cynnydd effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn well ac yn monitro cynaliadwyedd Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post. Byddwn yn parhau i adrodd ar ddata'r farchnad, ymchwil defnyddwyr a pherfformiad ariannol ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol yn ein diweddariad monitro post blynyddol. | Adroddiad<br>Ch3 2024/25 |
| **Datblygu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post yn y dyfodol.** Byddwn yn ystyried mewnbwn gan randdeiliaid mewn ymateb i'n dogfen drafod gynnar yn 2024 ar ddatblygu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post yn y dyfodol er mwyn gwella ei chynaliadwyedd. Os oes digon o dystiolaeth a chefnogaeth ar gyfer newid, efallai y byddwn yn dechrau proses ffurfiol i ystyried opsiynau ar gyfer newid o fewn cylch gwaith Ofcom ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw opsiynau y mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo. | Datganiad<br>Ch4 2023/24 |

## Prosiectau trawsbynciol

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd a'r defnydd o rwydweithiau band eang a symudol yn y diweddariad blynyddol hwn, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. | Diweddariadau Ch1 a Ch2 2024/25<br><br>Cyhoeddiad Ch3 2024/25 |
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu, fideo, a'r sector radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. | Diweddariadau Ch1 a Ch2 2024/25<br><br>Cyhoeddiad Ch3 2024/25 |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, eu hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad Ch3 2024/2025 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth oedolion o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion y Deyrnas Unedig. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig ar raddfa fach. | Adroddiad Ch1 2024/25 |
| **Adrodd ar ymwybyddiaeth plant o'r cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd y Cyfryngau ym Mywyd Plant, yn ogystal â'n hadroddiad ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc. | Adroddiad Ch1 2024/25 |
| **Adrodd ar dueddiadau prisio mewn gwasanaethau cyfathrebu.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol sy'n olrhain y prisiau y mae defnyddwyr gwasanaethau telathrebu a theledu drwy dalu yn eu talu. | Adroddiad Ch3 2024/25 |
| **Cael gafael ar newyddion.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymchwil flynyddol i'r ffordd mae pobl yn defnyddio ac yn meddwl am wasanaethau newyddion ar y teledu, ar y radio, mewn print ac ar-lein. | Adroddiad Ch2 2024/25 |
| **Datblygu ein swyddogaeth data.** Nod ein gwaith ar ddata yw paratoi Ofcom ar gyfer llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar ddata i gefnogi ein swyddogaethau polisi a thu hwnt. | Parhaus |
| **Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i gefnogi dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer gwasanaethau a materion ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ein swyddogaeth sganio'r gorwel ar y cyd, gwaith ar gefnogi'r broses o ddatblygu fframwaith Deallusrwydd Artiffisial Llywodraeth y DU a sefydlu peilot Canolfan AI a Digidol y Fforwm. | Parhaus |
| **Deall effaith ein gwaith.** Byddwn yn sicrhau bod ein dull o arfarnu polisi yn dilyn yr arferion gorau, gan ddefnyddio ein canllawiau asesu effaith wedi'u hadolygu. Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith drwy ein rhaglen barhaus o ôl-werthusiadau. | Parhaus |

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
| --- | --- |
| **Ymgysylltu Rhyngwladol.** Byddwn yn parhau â'n trafodaethau gyda chymheiriaid rheoleiddio rhyngwladol, llywodraethau, academyddion ac eraill i lywio ein gwaith ar draws ein holl sectorau. | Parhaus |
| **Sganio'r gorwel.** Mae swyddogaeth Sganio'r Gorwel Ofcom yn ceisio darparu dealltwriaeth systematig o'r themâu, y technolegau a'r tueddiadau mwyaf a fydd yn effeithio ar ein sectorau a'n defnyddwyr yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf. | Parhaus |

# A3. Asesiad effaith

A3.1 Mae gan Ofcom ddyletswydd i gynnal asesiadau effaith er mwyn rhoi darlun i'n rhanddeiliaid o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi a dangos pam mae'r opsiwn a ddewiswyd yn cael ei ffafrio. Rydyn ni'n cydnabod bod y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, rydym yn ystyried a yw ein hymyriadau polisi yn gymesur ac yn briodol yn ystod ein proses ymgynghori.

A3.2 Fel sy'n cael ei adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, mae'n rhaid i Ofcom gynnal asesiadau effaith mewn achosion lle byddai ein canlyniadau'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Yn achos y Cynllun Gwaith Blynyddol, nid ydym wedi cynnal asesiad effaith gan fod pob polisi a'r holl gyhoeddiadau a rhaglenni gwaith cysylltiedig a gynhwysir yn y Cynllun yn cael eu hasesu'n unigol fel y bo'n briodol.

# A4. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A4.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon, erbyn**5pm ar 9 Chwefror 2024**.

A4.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn [LINK]. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A4.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i planofwork@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

A4.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Plan of Work team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A4.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod ddim hwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A4.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A4.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A4.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A4.9 Byddai o gymorth pe bai eich ymateb yn cynnwys cyfeiriad at yr adran a'r paragraff y mae'n cyfeirio atynt. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A4.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i planofwork@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A4.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A4.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A4.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A4.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A4.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A4.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad fis Mawrth 2024.

A4.17 Pe dymunwch, gallwch gofrestru i gael diweddariadau i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A4.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 5.

A4.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A4.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A5. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A5.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A5.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A5.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A5.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A5.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A5.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A5.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A6. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny.

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma ☐

Enw Llofnod (os darperir copi caled)